

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Medi 2015

Rhif 458

50c

Cymru i Calais

Ymgyrch mamau Bethesda i helpu ffoaduriaid



Yn ôl y Groes Goch mae tua 13 miliwn o ffoaduriaid dros y byd yn ceisio osgoi creulondeb ac erchylltra rhyfel. Mae tua 3,000 o bobl wedi cyrraedd Calais yn barod gyda'r gobaith o dderbyn lloches. Yn bell o gartref, heb ddim i'w henwau, dim dillad, esgidia, lloches, gwely- mae'r bobl yma'n gorfod byw o dan amodau gwirioneddol anobeithiol. Dyma sydd wedi ysbrydoli Catrin Wager, mam ifanc leol, a Lisa Jên, ymysg eraill, i drefnu casgliadau i'w cludo o Fethesda, yr holl ffordd i lawr i Calais.

Meddai Catrin: "Dwi jesd yn teimlo fod yn rhaid gwneud rhywbeth ymarferol i helpu'r sefyllfa. Dwi'n nabod gymaint o bobl yn lleol sy'n teimlo i'r byw am yr hyn sy'n digwydd a dwi'n falch o ddweud fod y gefnogaeth gan gymuned Bethesda hyd yma wedi bod yn anhygoel."

Mae 2 daith eisoes wedi'u cadarnhau gyda'r gyntaf ar benwythnos 12/13 o Fedi, pryd y bydd Catrin a Lisa Jên yn mynd draw i Calais, a'r ail bythefnos yn ddiweddarach. Bydd costau pob taith i Calais yn tua £200. Mae'r Eurotunnel yn £50-£80 a phetrol yn tua £120. Mae Ymgyrch Cymru i Calais yn gobeithio casglu digon o arian i gynnal o leiaf 3 siwrnai i gludo nwyddau i Galais ac mae tudalen Crowdfunding arbennig wedi ei sefydlu i gyfrannu tuag at y costau. Mae pwynt casglu wedi ei drefnu o Swyddfa Partneriaeth Ogwen ar Stryd Fawr Bethesda, neu Siop Londis, i dderbyn nwyddau, blancedi, dillad, llestri, pebyll a mwy i'r ffoaduriaid a gofynnir yn garedig i bawb gyfrannu'n hael tuag at yr achos.

Bwriad Catrin a'r criw yw trefnu digwyddiadau i godi arian i'r ymgyrch yn lleol hefyd, yn cynnwys darlithoedd a chyngherddau. Os hoffech fod yn rhan o'r gweithgarwch neu os hoffech fwy o wybodaeth, galwch heibio swyddfa'r Bartneriaeth i gofrestru'ch enw fel gwirfoddolwr.

Côr y Dyffryn

Bydd ymarferion Côr y Dyffryn yn dechrau nos Sul, 27 Medi, am 6.15.p.m. yn festri Capel Jerusalem. Byddwn yn paratoi ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol, sydd i'w gynnal ar nos Sul, 20 Rhagfyr. Croeso cynnes iawn i bawb – aelodau hen a newydd!

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts

☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts

☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn

☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen

☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees

☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter W Williams

☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn
Nyffryn Ogwen:

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Medi

- 19 Bore Coffi Eglwys Crist
Glanogwen. Cefnfaes.
10.00 – 12.00
- 22 Noson Goffi Clwb yr Ifanc
Yr Eglwys Unedig, er budd
ffoaduriaid Calais.
Y Ffestri . 6.30 – 8.00
- 23 Cangen Plaid Lafur Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.30
- 24 Merched y Wawr Bethesda.
Noson Agoriadol. Parti o
Ysgol D. Ogwen. Cefnfaes
am 7.00
- 26 Bore Coffi Plaid Cymru.
Neuadd Ogwen.
10.00 – 12.00
- 26 Gig Meic Stevens a Siôn
Richards. Neuadd Ogwen am
7.30
- 29 Cangen Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00.

Hydref

- 01 Sefydliad y Merched
Carneddi. Arddangosfa
Coginio. Cefnfaes am 7.00
- 02 Cymhorthfa Alun Ffred
Jones, AC. Ffestri Capel
Bethlehem Talybont.
3.00 – 4.00
- 03 Bore Coffi Eglwys
Jerusalem. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
- 05 Merched y Wawr Tregarth.
Ffestri Shiloh am 7.30.
- 08 Cymdeithas Eglwys
Jerusalem yng nghwmni
Clychau'r Grug. Ffestri am
7.00
- 12 Cymdeithas Hanes Dyffryn
Ogwen. Ffestri Jerusalem am
7.30.
(Cyf. Blynnyddol am 7.00)
- 10 Marchnad Ogwen. Neuadd
Ogwen. 9.30 – 1.30.
- 15 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes
am 6.45.
- 17 Bore Coffi Sefydliad y
Merched Carneddi. Cefnfaes.
10.00 – 12.00
- 24 Bore Coffi Cymorth i'r
Ffoaduriaid. Neuadd Ogwen.
10.00 - 12.00.
- 27 Cangen Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00.
- 28 Cangen Plaid Lafur Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 31 Bore Coffi Eisteddfod
Dyffryn Ogwen. Neuadd
Ogwen. 10.00 – 12.00.

Tachwedd

- 13 Noson “Mixed Blessings”.
Canolfan Glasinfryn am 6.30
- 14 Marchnad Ogwen. Neuadd
Ogwen. 9.30 – 1.30.
- 25 Marchnad Ogwen. Neuadd
Ogwen. 6.00 – 9.00.

Rhoddion i'r Llais

- £10.00 Er cof am Raymond
Williams, (3 Rhes
Douglas, gynt) a fuasai'n
76 mlwydd oed ar 16
Medi, oddi wrth Barbara
a'r teulu.
- £10.00 Er cof am fy chwaer,
Helen Ruth Eleri
Williams, a fu farw ar 3
Hydref 2013 yn 63 oed.
Hefyd fy mam, Ellen
Rosina Pritchard, a fu
farw ar 8 Hydref 1991 yn
81 oed. “Gwag yw'r
aelwyd ar eich ôl!” Oddi
wrth David a'r teulu, 17
Rhes Elfed.
- £20.00 Er cof annwyl am Ettie
Evans, 10 Glanffrydlas,
oddi wrth ei phriod, Joe,
a'r teulu.
- £5.00 Dienw.
- £10.00 Dienw, Bethesda.

Diolch yn Fawr

Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

Gwobrau Awst

- £30.00 (50) Margaret Hughes.
Cilgwri
- £20.00 (137) Joan Griffith,
15 Glanffrydlas,
Bethesda.
- £10.00 (9) Maldwyn Hughes,
Cefn Dinas, Minffordd.
- £5.00 (81) Gwenno Jones,
Y Wern, Gerlan.

Gwobrau Medi

- £30.00 (192) Carys Dafydd,
Llys Llywelyn,
Braichmelyn.
- £20.00 (151) Lester Bath,
25 Ffordd Frydylas,
Bethesda.
- £10.00 (50) Margaret Hughes,
Cilgwri.
- £5.00 (97) Walter W. Williams
14 Erw Las, Bethesda.

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan
na'r panel golygyddol o
angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein
cyfranwyr.

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Tasg,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg
Ffrancon, Dôl Ddafydd,
Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Lowri
Roberts a Walter W. Williams.

Golygydd mis Hydref fydd
Neville Hughes, Bryn Ffrydylas,
14 Ffordd Pant, Bethesda,
LL57 3PA. (01248 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd
Mercher, 30 Medi, os gwelwch
yn dda. Plygu nos lau, 15
Hydref, yng Nghanolfan
Cefnfaes am 6.45.

Marchnad Ogwen

'Rydym fel Marchnad yn
awayddus i ddweud 'Diolch yn
fawr' wrth ein cwsmeriaid
ffyddlon sy'n cefnogi Marchnad
Ogwen yn gyson. Dyma sut
mae cynllun y 'Cerdyn
Ffyddlondeb' yn gweithio -



Ar ôl i chi brynu o Stondin yn y
Farchnad, cewch hawlio stamp
ar eich cerdyn glas gan y
Stondiniwr.

Caniateir un stamp am bob
ymweliad â'r Farchnad.

Nid yw'r Stondin Elusen na'r
Stondin 'Un Tro' yn rhan o'r
cynllun hwn.

Pan fyddwch wedi casglu 3
stamp, ewch â'r cerdyn i'r Caffi
yn Neuadd Ogwen a chewch
hawlio paned o de neu goffi am
ddim.

Byddwn ni wedyn yn cadw eich
cerdyn. Bydd y cardiau hyn yn
mynd i'r het am gyfle i ennill
gwobr ym Marchnad Rhagfyr
12fed. Bydd un wobr o £50 a
dwy wobr o £25 ar gael.

Byddwch wedyn yn cael cerdyn
newydd - mae hyn yn gyfle i
chwi roi mwy nag un cerdyn yn
yr het at y wobr Nadolig!

Mae 'Pleser Pur' yn Stondin
newydd sydd yn gwerthu
siocled, sawsiau a siytyn ac mae
croeso cynnes i Iwan atom ni.

Stondin Elusen mis Hydref yw
Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
ac mae'r Stondin 'Un Tro' yng
ngofal Jasmine Carson gyda'i
gwaith llechi. Croeso atom.
Bydd y Farchnad nesaf Hydref
10fed yn Neuadd Ogwen o 9.30
- 1.30.

Mae gwybodaeth lawn am y
Farchnad ar ein gwefan
www.marchnadogwen.co.uk, ar
Facebook, a Twitter
@MarchnadOgwen.

Annwyl Olygydd

Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn 2015

Cafwyd noson lwyddiannus dros ben o dan arweiniad y gyflwynwraig boblogaidd, Nia Parry, i wobrwyo disgyblion o ysgolion Gwynedd a Môn am eu hymdrechion ym myd chwaraeon.

Diddanwyd pawb gan Gôr Ysgol Dyffryn Ogwen ynghyd â Band Pres Biwmares. Cafwyd hefyd sgwsr ysbrydoledig gan un o dîm hyfforddi Tîm Pêl-droed Cymru, Osian Roberts.

Hyfryd oedd deall mai Mari Davies o Ysgol Dyffryn Ogwen a enillodd wobwr Merch y Flwyddyn Uwchradd, a bod amryw o ddisgyblion eraill o'r ysgol wedi cyrraedd y rhestr fer.

Meddai'r Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer Gwynedd Iach: "Llongyfarchiadau i bawb a enwebwyd ac yn arbennig i'r rheiny a gyrhaeddodd y rhestr fer, - mae'n anhygoel faint o dalent sydd ymysg ein pobl ifanc. Yn ogystal, diolch i holl noddwyr y noson - mae'n grêt gweld gymaint o fusnesau lleol yn rhan o'r noson."

Noddwyr y Seremoni oedd Sional, Joloda, RAF Fali, Williams Denton, Stena Line, Always Aim High, Cymdeithas Chwaraeon Ysgolion Eryri, Chwaraeon Anableddau Cymru a Chwmni Spar.

Am fwy o wybodaeth am chwaraeon a gweithgareddau i blant yng nghanolfannau hamdden Gwynedd, ewch ar y wefan www.gwynedd.gov.uk

Trigolion Gwynedd i dderbyn gwybodaeth bwysig am gofrestru pleidleiswyr

Yn ddiweddar, mae cartrefi yng Ngwynedd wedi bod yn derbyn ffurflen yn gofyn i drigolion gadarnhau bod y wybodaeth sydd ar y gofrestr etholiadol ar gyfer y cyfeiriad hwnnw yn gywir fel rhan o ganfas blyneddol Cyngor Gwynedd o gartrefi.

Yr amcan yw sicrhau bod y gofrestr etholiadol yn gyfredol, a nodi unrhyw drigolion nad ydynt wedi'u cofrestru fel y gellir eu hannog i wneud.

Mae etholiadau pwysig y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn cael eu cynnal ym mis Mai 2016, ac mae hwn yn gyfle cynnar i drigolion sicrhau y byddant yn gallu cymryd rhan. Gall unrhyw drigolyn o Wynedd sydd â chwestiynau gysylltu â thîm etholiadau'r Cyngor drwy e-bost ar etholiad@gwynedd.gov.uk neu drwy alw 01286 679058.

Siop Ogwen, Bethesda (drws nesaf i'r Neuadd)

Dyma le hwylus i chi adael eitemau ar gyfer Llais Ogwan

Newyddion, lluniau, hysbysebion ac ati.

Dim ond eu rhoi mewn amlen wedi ei gyfeirio at Llais Ogwan (Cofiwch nodi eich enw a'ch rhif ffôn. Gallwch brynu copi o'r Llais yno hefyd.

Cais Cynllunio Coetmor yn cael ei Wrthod

Mae'r cais cynllunio gan Richard Douglas Pennant, Stad y Penrhyn i godi stad 69 o dai yng Nghoetmor wedi ei wrthod gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd. Yng nghyfarfod y pwyllgor yng Nghaernarfon ar 7 Medi, penderfynwyd yn unfrydol i beidio â rhoi caniatâd cynllunio i'r cais, a hynny ar argymhelliad y swyddogion cynllunio. Barn y Gwasanaeth Cynllunio oedd y dylid ei wrthod ar faterion bioamrywiaeth yn unig, sef bod rhai o'r coed hynafol sydd ar y safle yn cael eu gwarchod trwy orchymyn erbyn hyn, ac nad oedd y datblygwr wedi darparu digon o wybodaeth ar sut y byddai'r ystlumod a'u clwydfannau yn cael eu diogelu.

Yn ystod y cyfarfod, cyflwynwyd adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio, yn cynnwys y sylwadau canlynol ar faterion bioamrywiaeth: "O wythnos diwethaf ymlaen mae yna orchymyn gwarchod coed ar rai o'r coed ar y safle, ac mae hyn yn debygol o effeithio ar y gallu i ddatblygu'r safle ar gyfer 69 o dai...Ni chredir y gellir datblygu 69 o dai ar y safle heb amharu yn sylweddol ar y coed ar y safle...Credir felly fod y bwriad o ddatblygu 69 o dai yn orddatblygiad o ystyried cyfyngiadau'r safle, ac nad oes modd lliniaru yn erbyn hyn ac nad oedd cynnig rhesymol o liniaru wedi ei wneud ychwaith...Yr argymhelliad ydi i wrthod y cais gan y byddai'r bwriad yn cael ei ystyried yn annerbyniol ar sail diffyg gwybodaeth dderbyniol a gyflwynwyd mewn perthynas â'r gallu i asesu'n drylwyr yr effaith ar rywogaethau sydd wedi'u gwarchod, sef gweithgaredd ystlumod, ynghyd ag asesiad digonol o'r coed ar gyfer clwydfannau."

Côr Meibion y Penrhyn

Croeso'n ôl i'r Côr wedi'u taith lwyddiannus i'r Unol Daleithiau, a diolch iddynt am gyngerdd rhagorol yn Neuadd Ogwen cyn iddynt gychwyn am y wlad bell. Bydd adroddiad llawn o'r daith yn ymddangos yn y Llais y mis nesaf.

Raffl Côr y Penrhyn

	GWOBR	ENW
1	£100	Gavin Owen
2	£75	Idwal Jones
3	£50	Raymond Owen
4	£25	Orina Pritchard
5	Camera	Meilir
6	Gwin	Julie Pritchard
7	Bocs Ffrwythau	Pat Lewis
8	Gwin	Bethan Griffith
9	Persawr	Debbie Wadding
10	Gwin	Llion Derbyshire
1	Rugby Heroes	Martha Rhys
12	Gwin	Gwyn Varney
13	Bocs Siocled	Janet Davies
14	Gwin	Llio George
15	Gwin	Phil Thomas
16	Gwin	June
17	Gem	Deanna
18	Gwin	Llion Derbyshire
19	Persawr	Catrin Jones
20	Pâr o fenig	Steve Cadman

Gorffwysfan, Stryd Fawr Bethesda

Ddydd Mercher, 8 Gorffennaf, aeth criw o 43 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith, yn gyntaf i Bwyd Cymru, Bodnant am goffi a siopa, yna ymlaen i'r Bala am ginio, wedyn ar y trên bach o'r Bala i Lanuwchllyn ac yna i Ganolfan Byd Mary Jones cyn galw ym Mhorthmadog. Diolchodd y cadeirydd, Mr Elfed Bullock i bawb am ddod ac am y trefniadau. Aelodau! Cofiwch am eich tâl aelodaeth os gwelwch yn dda.

THEATR BARA CAWS yn cyflwyno

DIFA

gan Dewi Wyn Williams

Drama newydd heriol gan enillydd y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 2014.

Drama ingol, ddoniol a phersonol, sy'n cynnig cyfle i grio a chwerthin crio, yn aml ar yr un pryd. Yn ôl y dramodydd, "Y ffordd orau i galon ddwys yw chwerthin trwy'r bol", ac mae 'DIFA' yn mynd â ni o'r dwys i'r doniol ar helter-sgelter o emosiynau.

Mae'r ddrama'n digwydd ym mhen Oswald Pritchard, cyfieithydd, wrth iddo ymylu ar glogwyn gwallgofrwydd. Mae Os wedi colli ei waith, ac yn ofni colli cariad ei wraig, Mona. Cawn fynd yn ei gwmni i weld ei gyn-fos Peter a'r seiciatrydd Dr King, a chael cipolwg ar ei fywyd priodasol anghonfensiynol, wrth iddo bendilio o un emosiwn i'r llall, gan gynnig sylwadau bachog, difyr am y byd a'i bethau, a hynny mewn iaith rywiog, gref.

Mae hon yn ddrama dwy act, gydag egwyl yn y canol.

Yr actorion: Bethan Dwyfor, Rhodri Evan, Catrin Mara, Llion Williams
Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd

Addas i rai 16+

NEUADD OGWEN – Tachwedd 10fed ac 11eg 7.30
Tocynnau: Ffoniwch: 01248 208485

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Ddydd Iau, 27 Awst yng nghartref Mr a Mrs Glyn Jones, Coed-y-maes, Penrhosgarnedd, cafwyd te prynhawn ardderchog gyda Kath, Glyn, Siân a Beth a chyfeillion yn gweini. Roedd pawb wedi mwynhau'r te a'r croeso yn fawr iawn, gydag elw'r prynhawn yn mynd at waith y cyfeillion. Diolch yn fawr iawn i chi fel teulu.

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW 📞 **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
📞 **601902**

Diolch
Dymuna Olive, Gwyn a Michael, 6 Maes-y-garnedd ddiolch o galon i naw am bob arwydd o gydymdeimlad ar achlysur trist marwolaeth Billy. Diolch am yr holl gardiau, ymweliadau, galwadau ffôn ac am y rhoddion hael er cof am Billy, tuag at ambiwlans Awyr Cymru. Diolch hefyd i’r Canon Idris Thomas am arwain y gwasanaeth ac i Mr Gareth Williams yr ymgymerwr am ei drefniadau trylwyr.

Llongyfarchiadau
gwresog iawn i Mrs Ceren Lloyd, Pennaeth Ysgol Pen-y-Bryn, ar lwyddiant ysgubol Lleisiau Mignedd yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod. Mrs Lloyd yw arweinydd y Côr Merched dawnus hwn o ardal Dyffryn Nantlle.

Ysbyty
Bu sawl un yn yr ysbyty dros dymor yr haf ac anfonwn ein cofion a’n dymuniadau am wellhad buan atynt i gyd. Da deall bod rhai wedi dychwelyd adref erbyn hyn: Mrs Freda Adams, Abercaseg; Mr Joe Roberts, Ffordd Bangor; Mrs Muriel Williams, Glanffrydlas; Mrs Mair Scott, Glanogwen; Mr James Rowlands, Abercaseg; Mrs Eleanor Jones, Bryncaseg; Mr Gwilym Jones, Cilfodan; Mr Elfed Bullock, Maesygarnedd.

Pen-blwydd
Yn ystod yr haf dathlodd dau o’r dyffryn ben-blwyddi arbennig. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da. 70 oed – Mr Eifion Davies, Ffordd Ffrydlas; 90 oed – Mr Gwilym Williams, Glanogwen.

Priodas
Ddydd Sadwrn, 25 Gorffennaf, yng ngwesty’r Royal Victoria, Llanberis, priodwyd Mr a Mrs Geraint Saynor, Maes Coetmor. Llongyfarchiadau.

Ymddeol
Ymddeoliad hapus i Mr Arfon Evans, Erw Las, wedi blynyddoedd o ddysgu yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Babi/Taid a Nain
Ddydd Iau, 6 Awst, ganwyd merch fach, Seirian Rhodd, i Mared ac Alan Jones, Stryd Glanrafon. Llongyfarchiadau i chwi ac i taid a nain, Stryd Fawr, sef Gwyn a Rhian Roberts, Llen Ogwen.

Genedigaeth
Ar 23 Awst ganwyd mab, Kieren Lee, i Michelle a Lee, Stryd Fawr Bethesda. Llongyfarchiadau mawr i chi a hefyd i nain, sef Dawn Taylor, Maesygarnedd.

Ddydd Gwener 9 Awst ganwyd merch fach, Non Eluned, i Claire a Rhys, y Groeslon. Llongyfarchiadau i chi ac i taid a nain Wenallt, sef Gwyn a Beryl Burgess.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwilym Williams, Ffordd Coetmor, ar achlysur dod yn daid a nain i fachgen ar 28 Awst.

Marwolaeth
Ar 2 Awst yn ei chartref, 20 Adwy’r Nant, bu farw Mrs Phyllis Margaret Roberts, priod y diweddar Mr William Roberts, mam annwyl i Ivor Wyn, Catherine, John, Mary, Douglas a’r ddiweddar Valerie. Nain hoffus i Kane, Steven, Dylan, Claire, Lee Wyn a Carwyn a hen nain i Ayelish, Llinos, Jordon, Ryan, Lois, Thomas, Logan, Shaun, Noah a Finley. Chwaer Glenys a ffrind ffyddlon Glyn. Roedd Phyllis a Glyn yn cefnogi pob bore coffi bob dydd Sadwrn ac yn hael iawn wrth brynu nwyddau. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener, 1 Awst, gyda gwasanaeth yn ei chartref, Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Eglwys Coetmor. Gwasanaethwyd gan y ficer, y Parchedig John Matthews. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu yn y Dyffryn a fu mewn profedigaeth yn ystod yr haf:

26 Gorffennaf – Mrs Jean Ogwen Jones a’r teulu, Coetmor a gollodd ei brawd, ac ewythr Eleri a Manon, yn Llanelwy, sef Mr David Owen.

3 Awst - Mr a Mrs Arfon Roberts, Hen-barc a’r teulu – colli tad Siân.

4 Awst – Mrs Glenys Jones, Adwy’r Nant a David, Derek a Glyn – colli merch a chwaer annwyl a hoffus, sef Mrs Rhian Roberts, Ffordd Gerlan yn 52 oed.

18 Awst - Mr a Mrs Colin Williams, Adwy’r Nant a’r teulu, Mr a Mrs Steven Speddy, Pant Glas a’r teulu yn eu profedigaeth fawr o golli eu nith, Charlotte Speddy, Gerlan, yn 17 oed.

Diolch
Dymuna Mrs Maggie Jones, Tŷ Coetmor, Brynbella, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau, a chymdogion am eu holl garedigrwydd, yn gardiau, anrhegion, a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch arbennig i’r plant am drefnu parti pen-blwydd iddi.

Pen-blwydd arbennig
Yn ddiweddar dathlodd Llinos Hughes, Ystâd Coetmor, ei phen-blwydd yn 21 oed. Llongyfarchiadau mawr iti, Llinos,- rydym i gyd yn gobeithio iti fwynhau’r diwrnod arbennig hwn. Pob dymuniad da iti i’r dyfodol.

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar Fedi 3ydd croesawyd pawb yn gynnes iawn yn ôl i ddechrau tymor yr Hydref o’r Sefydliad gan ein Llywydd, Margaret Williams. Nid oedd wedi bod yn haf rhy ddrwg ac ‘roedd yn gobeithio bod pawb wedi cael gwyliau wrth eu bodd. Croesawodd Violet Williams yn ôl, hithau ddim wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. ‘Roedd hefyd yn gobeithio bod Elfed Bullock, gŵr Rita, wedi gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, yn ogystal â Jackie Williams, gŵr Eirwen, a oedd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar . Cydymdeimlwyd â Glenys Jones o Adwy’r Nant ar golli ei merch, Rhian, o’r Gerlan yn ddiweddar. Ein cofion at y teulu i gyd.

Darllenwyd cofnodion Gorffennaf gan Gwyneth Morris ac aeth Margaret ymlaen i ddarllen cynnwys y llythyr misol. Cynhaliwyd llawer o weithgareddau yn ystod yr haf, a’r diwrnod mawr ei hun yn dod yn nes, sef 16 Medi 2015 - diwrnod dathlu 100 mlwyddiant y Sefydliad . Mae pob Sefydliad yn trefnu dathliadau mewn amrywïol ffyrdd ac ‘rydym ninnau hefyd am ddathlu drwy gael pryd o fwyd yng nghlwb Golff Caernarfon ar Fedi 16. Bydd yr hanes yn y Llais y tro nesaf.

Ein gwraig wadd am y noson oedd Ellen Lloyd Jones o Gaerwen - gwniadwraig brofiadol dros ben - wedi bod yn athrawes am gyfnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn dal i fynd yno yn achlysurol . Mae’n feirniad mewn sioeau amaethyddol yn ogystal ag eisteddfodau, ac yn gwneud dillad priodas a hetiau yn ogystal â bagiau i fynd gyda’r dilledyn .

Cawsom weld llawer iawn o fagiau a hetiau, neu yn hytrach “fascinators“, o bob lliw a siâp, ac aeth ati i ddangos sut yr oedd yn eu gwneud . ’Roedd yn gwneud i’r broses edrych yn hawdd iawn. Merch broffesiynol dros ben! I gloi'r noson cawsom weld lluniau o briodas ei mab yn eglwys Llanbedrgoch yr wythnos cynt . Ellen oedd wedi gwneud dillad y morwynion i gyd - 6 ohonynt !!

Diolchwyd i Ellen gan Margaret, ac i’r merched am y lluniaeth. Enillwyd y wobr lwcus gan Gwenda Bowen, yn rhoddedig gan Margaret Williams.

Dymuna Llinos ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu holl garedigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd. Diolch yn fawr am y cardiau, yr anrhegion, a’r dymuniadau da.

Taid a nain
Llongyfarchiadau mawr i Eurwyn a Janet Hughes, Ystâd Coetmor, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed mab bychan. Tommy Wyn, brawd bach i Lucie Beth, i’w mab Gethin a’i bartner, Elinor, sy’n byw yn Llanllechid. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Hoffai Elinor a Gethin ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth Tommy.

Diolch
Dymuna John, Mary a Douglas ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad a’u caredigrwydd yn eu profedigaeth o golli mam, Phyllis (Adwy’r Nant). Hefyd, diolch o galon i Claire, Carol, Diane a Catherine ac i ddoctoriaid a nyrsus Bethesda. Diolch yn fawr hefyd i’r ymgymerwyr, H. O. Davies.

Capel Bethania

Gwasanaethau

20 Medi
Parchg, Gwynfor Williams.

04 Hydref
Mr. Glyn Owen.

18 Hydref
Parchg, Gwynfor Williams.

Oedfaon am 5.30 o’r gloch
Croeso cynnes i bawb

GRIFFITHS – JEAN ELIZABETH (Bullock)

Dymuna Andrew, Stephen, Kevin, Sheryl, Mrs Brenda Owen, Rhes Elfed, a’r teulu i gyd, ddatgan eu diolch cywiraf am yr holl arwyddion o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth. Diolch i’r gofalgwyr a ofalodd am Mam yn ei chartref, ac i staff ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd am eu gofal ohoni yn ystod ei dyddiau olaf. Diolch hefyd i’r Parchedig Dafydd Coetmor Williams am y Gwasanaeth hyfryd, ac i Gwenan Roberts o gwmni W.O. ac M Williams am y trefniadau trylwyr. Yn olaf, diolch yn arbennig i bawb a gyfrannodd roddion, er cof, i’r Gymdeithas MS leol er cof am Jean.

Penblwydd Arbennig
Dymuniadau gorau i Hannah, Glanogwen, ar ddathlu ei phenblwydd yn 21 mlwydd oed. Penblwydd hapus a chariad mawr oddi wrth Mam, Meth a Cadi Haf. X. Hoffai Hannah ddiolch yn fawr i bawb a fu mor ffeind wrthi ar yr achlysur hwn.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau mawr i Awen Angharad Jones o 4 Cil Caseg am iddi ennill Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Hanes, a hefyd am ennill Gwobr Blanche Elwy Hughes a roddwyd i’r myfyriwr gorau yn yr Ysgol Hanes.

Y Gerlan (parhad)

Apêl Eleanor

Yn ddiweddar cafodd Apêl Eleanor hwb sylweddol gyda dau gyfraniad anrhydeddus. Cyfrannwyd rhodd o £1320 gan deulu'r diweddar Geoffrey Brotherton, Rachub er cof amdano. Yna derbyniwyd cyfraniad o £1200 er cof am Mair Morris, Penygroes, gan ei theulu hithau.



Mrs Gladys Brotherton a'i nith yn cyflwyno sicc am £ 1320 er cof am Geoffrey i aelodau o Bwyllgor Apêl Eleanor, gydag Eleanor ei hun, a Richard ei gŵr, yn y llun



Robert Morris yn cyflwyno sicc am £1200 er cof am ei wraig, Mair, i Eleanor a Richard, ar gyfer Apêl Eleanor

Mae Pwyllgor Apêl Eleanor yn gwerthfawrogi'r rhoddion hyn yn fawr, yn union fel ag y maent yn gwerthfawrogi pob rhodd gan gefnogwyr hael, ac yn diolch yn fawr am eich cyfraniadau i achos mor deilwng. Erbyn hyn mae'r Apêl wedi casglu'n agos at £40,000 ac yn rhoi'r arian i brynu offer i Ward Alaw. Diolch yn fawr i bawb sy'n cefnogi'r Apêl.

Llwyddiant

Mae Tomos Lewis Roberts, Pen Clwt, wedi profi llwyddiant mawr wrth chwarae golff. Yn ystod Gorffennaf cymrodd Tomos ran yng Nghystadleuaeth Mini Masters Cymru yn Rhosneigr, ac enillodd yno. Aeth Tomos yn ei flaen i'r ail rownd ym Meliden ddiwedd Awst, gan ddod yn gyntaf yn y fan honno hefyd.

Bydd yn awr yn mynd i'r rownd derfynol yng nghwrs enwog y Celtic Manor yng Nghasnewydd ddiwedd Hydref. Rhagorol, wir, Tomos! Rydym i gyd yn dy longyfarch, ac yn falch iawn ohonot. Does neb yn fwy balch na mam a dad a'r teulu i gyd. Pob hwyl iti yn y Celtic Manor.



Tomos a'i lwyddiant golff

Llun o Ysgol Gerlan



Yn ddiweddar derbyniasom lun gan Douglas Thomas, gynt o Fraichmelyn, ond sydd bellach yn byw yn Barrow-in-Furness. Llun ydyw o ddosbarth Mrs Pritchard yn Ysgol Gerlan ar ymweliad â Chastell Harlech rywdro cyn 1955. Mae Mr Thomas yn enwi rhai o'r disgyblion, sef Selwyn Jones, a'i chwaer, Dewi Sinclair, Trevor Jones, Olwen Williams (Hills yn awr), Adrian a Brian Hughes, Keith Llechid Williams, a'i chwaer Margaret Llechid Williams,(Roberts yn awr), a Robin Hughes. Tybed a all rhai ohonoch chi, ddarllenwyr adnabod y lleill? Gadewch inni wybod.

Croeso i'r ardal

Rydym yn croesawu Eryl Seddon i'w chartref newydd yn Rhes Gerlan. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn gyda ni, Eryl.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub
LL57 3LW
☎ 601880

Dwy yn gwirfoddoli

Mae dwy eneth leol yn treulio'r wythnosau nesaf yn gwirfoddoli er mwyn ceisio gwella safon byw trigolion pentrefi yn Affrica. Dringo mynydd Kilimanjaro y bydd Ceri Morgan, Tyddyn Canol, gan godi arian at waith elusen 'Dig Deep'. Dyma elusen sydd yn brwydro i ddod a dŵr glân i bentrefi tlawd, diarffordd yn Affrica.

Yn dilyn ei llwyddiant yn yr arholiad lefel A bydd Abbie Edwards, Ffordd Llanllechid, yn treulio tri mis mewn pentref gwledig fel rhan o dim Raleigh International yn Tansania.



Abbie Edwards

Disgwylir iddi fyw gyda theulu lleol gan gymryd rhan yn rhedeg y cartref, ac mae sôn y bydd yn rhaid cerdded rhai milltiroedd i nôl dŵr yn ddyddiol! Reis a ffa mae'n debyg fydd y diet sefydlog. Tra yno bydd hefyd yn ceisio addysgu pobl ifanc am lanweithdra, coginio, a defnydd o ddŵr glân, ynghyd â chodi adeiladau hanfodol megis toiledau. Mae Abbie yn gobeithio codi arian ar gyfer y gwaith yma ac os ydych yn teimlo fel cyfrannu gallwch gysylltu ar wefan www.justgiving.com/AbbieTanzania /<<http://www.justgiving.com/AbbieTanzania>> (LLUN O ABBIE ar e-bost) Pob llwyddiant i'r ddwy ohonynt.

Dathlu

Bu cryn ddathlu yn ddiweddar yn rhif 60 Maes Bleddyn pan ddathlodd Jack Williams ei ben-blwydd yn 90 oed. Dymuniadau gorau a chofion atoch Jack.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Llinos Bryn, Bron Arfon ar basio ei phrawf gyrru.

Clwb Llanllechid

Cafwyd dau gyfarfod buddiol ar ddiwedd y tymor ym Mehefin a Gorffennaf. Yn ystod y cyfarfodydd cafwyd cyfle i estyn cydymdeimlad at deuluoedd dwy o'r aelodau. Collodd Margaret Owen ei brawd yng nghyfraith, Gruffydd Owen yn Rhiwlas tra bod Betty Williams, Bryn Owen, wedi colli chwaer yng nghyfraith, sef Eirwen, yn Rachub. Bu Eirwen yn aelod ffyddlon o'r Clwb hyd nes i salwch ei llethu.

Ar nodyn hapusach llongyfarchwyd Rhiannon ar ddod yn nain yn sgil geni Steffan Gwern, a llongyfarchwyd Osian, ŵyr i Margaret Rees Williams ar ei lwyddiant yn ennill gradd yn y Brifysgol. Yn ystod cyfarfod Mehefin daeth Glena Bevan i roi sgwrs a dangos lluniau o'r gwaith o drefnu a chodi arian tuag at gofeb a osodwyd yn Fflandrys i gofio milwyr o Gymru a gollwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n amlwg bod Glena ac Alwyn wedi rhoi oriau i wneud y gwaith pwysig yma. Mawr yw ein diolch iddynt.

Yng nghyfarfod Gorffennaf cafwyd cwis ar gymeriadau'r byd teledu a'r newyddion. Rhoddodd Ceinwen fraslun o hanes y cymeriadau yn ystod y pnawn. Tîm Arfona a Rhiannon oedd yn fuddugol gyda 21 marc.

Mae'r aelodau yn diolch i swyddogion Carmel am roi benthyg y festri iddynt a diolch arbennig i Helen am ei chydweithrediad parod bob amser. Dewch yn llu i gyfarfodydd y tymor yma yw'r apêl. Ni chewch eich siomi.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Siân ac Arfon Williams, Hen Barc, ar achlysur trist marwolaeth tad Siân, sef Ifan wyn Williams, Sir Fôn.

Bu farw un o hogiau Rachub yn ei gartref ym Mhorthmadog, sef Roy Pritchard. Anfonwn ein cydymdeimlad at Wendy a Ron, Bron Arfon, a'r teulu oll.

Hefyd cydymdeimlwn gyda Mr a Mrs Eirwyn Pritchard, 1, Bron Arfon, ar farwolaeth chwaer yng nghyfraith i Eirwyn yn Stoke.

Priodas

Dymuniadau gorau i Gareth Hughes, Ffordd Llanllechid a Sophia Williams, Gaerwen, Sir Fôn, a briodwyd yn Eglwys y Gaerwen ar Orffennaf 18. Bu'r wledd yng ngwesty Bae Trearddur, a byddant yn ymgartrefu yn y Gaerwen. Yr un yw ein dymuniad i Lleucu Elis Williams a Nathan ar achlysur eu priodas ar ddiwedd mis Awst yng Nghapel Shiloh, Tregarth. Teithiwyd i Caerhun Hall yn Nyffryn Conwy am y wledd.

Newid Byd

Dyma adeg o'r flwyddyn pan fydd plant a phobl ifanc yn wynebu her newydd - rhai yn cychwyn ym myd addysg am y tro cyntaf, eraill yn symud i addysg uwchradd neu i golegau. Bydd eraill yn cychwyn yn y byd gwaith am y tro cyntaf. Beth bynnag fydd y llwybr a ddilynir, dymunwn bob llwyddiant iddynt oll. Pob hwyl i Thomas Jones, Ffordd Llanllechid, wrth iddo ddilyn cwrs y Mhrifysgol John Moores yn Lerpwl.

Nain a Thaid

Llongyfarchiadau i Brian a Gwenda Jones, Bron Arfon ar ddod yn nain a thaid eto pan anwyd Thomas Emrys i Gethin ac Alice yn Huddersfield. Mae Gwenda am ddiolch am y

cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth ddathlu pen- blwydd arbennig yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Dyna'r neges i nifer o drigolion sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbytai dros yr Haf, yn eu plith Michael Williams, Lon Groes, Alice Jones, Tan y Garth, Sharon Williams, Maes Bleddyn, Gareth a Nansi Hughes, Manod, Melanie Tugwell, Maes Bleddyn a Mrs Margaret Bowen Rees. Sgwâr Rachub.

Cadair yr Eisteddfod

Er mai i gartref y Prifardd Hywel Griffith yn Nhalybont, Ceredigion yr aeth y gadair mae'n rhaid cael dweud fod yna gysylltiad gyda Rachub. Saer ifanc o Sir Drefaldwyn, Carwyn Owen a wnaeth y gadair hardd hon, un o'r crefftwr ieuengaf i wneud cadair y Brifwyl. Beth yw'r cysylltiad â Rachub? Wel, mae nain i Carwyn yn hanu o'r pentref, sef Mrs Marian Owen, un o deulu Tŷ Mawr yn y pentref. Er ei bod wedi byw yn Y Foel, Trefaldwyn, ers nifer fawr o flynyddoedd, deil ei diddordeb yn hanes Rachub a'i bobl. Drwy gyfeillion, teulu, a derbyn Llais Ogwan yn fisol y ceidw ei diddordeb yn fyw.

Marwolaeth

Fis Gorffennaf, bu farw Ffrangcon Evans yng nghartref ei fab ger Taunton yng Ngwlad yr Haf yn 102 oed. Fe'i magwyd ym Mryn Eithin, Llanllechid lle'r oedd ei deulu wedi bod yn ffermio ers 1840 pan symudasant yno o Wern Bach. Roedd yn frawd i'r diweddar Goronwy Evans, Llwyn Onn, Allt Penybryn.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Jac Williams, 60 Maes Bleddyn, a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed ar ddydd Sadwrn, 25 Gorffennaf. Cafodd deisen pen-blwydd unigryw a chael dathlu adref efo'r teulu. Cariad mawr oddi wrth Jean a'r teulu.

Gradd Mae Neil Williams wedi derbyn gradd PhD ym Mhrifysgol Manceinion. Mae Neil yn fab i Phil a Lesley Williams, gynt o hen Gapel Peniel, Llanllechid, ac yn ŵyr i Jac a Jean Williams, 60 Maes Bleddyn ac i Roy a Mary Rowbotham, Bron Bethel. Golyga hyn bod gan Jac a Jean Williams 3 o ŵyrion sydd wedi derbyn gradd PhD, yn cynnwys Mathew a Paul Hughes gynt o Stad Coetmor. Mae hyn yn gamp arderchog. Llongyfarchiadau mawr i Neil.

Capel Bethel

Trefn Gwasanaethau

Medi
20 Parch. Richard Owain Jones.
27 Parchedig Gwyndaf Jones.

Hydref
04 Parch. Ddr. H. John Hughes
11 Gweinidog.
18 Parchedig Dafydd Job.

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.

Capel Carmel

Y Chwiorydd.
Yn ôl ein harfer fe anfonwyd plancedi i Blas Ogwan eto eleni. Dyma gynnyrch y Clwb Gwau sy'n cwrdd ar brynhawniau Llun yn y Festri. Gyda thair o'r merched a arferai fod yn ffyddlon iawn i'r Clwb bellach yn aros ym Mhlas Ogwen am gyfnod, addas fyddai i ni fel eglwys anfon ein cofion at Mrs Eirian Pritchard, Mrs Phyllis Evans a Mrs Nancy Jones. Mae croeso mawr i chwi ddod draw atom i barhau gyda'r gwaith.

Mae croeso i chwi hefyd ymuno â ni yn y Te Bach misol. Mae'r Ysgol Sul a'r Clwb dwylo Prysur wedi cychwyn ac mae'r drysau'n agored i blant a phobl ifanc ymuno â ni o'r newydd.

Ysbyty
Bu sawl aelod yn yr ysbyty yn ddiweddar ac anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan at bob un, hefyd at yr aelodau sy'n wael yn eu cartrefi.
Mrs Helen W. Evans, Erw Las;
Mrs Margaret Bowen Rees, Ffordd Llanllechid;
Mr a Mrs Gareth Hughes, Llwynbleddyn;
Melanie Tugwell, Maes Bleddyn.

Cydymdeimlo
Fel Eglwys, anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Glenys Jones, Adwy'r Nant. a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Rhian. Hefyd cydymdeimlwn â'r gweinidog a'r teulu un eu profedigaeth o golli Mr Myrddyn Pritchard, Llanberis, sef tad y Parchedig John Pritchard.

Carmel Llanllechid

Te Bach cyntaf y tymor
Pnawn Llun, 28 Medi

2.00 tan 4.00

Croeso cynnes i bawb

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau

Medi
20 Miss Nerys Jackson 5.00
27 Y Gweinidog 5.00

Hydref
04 Y Gweinidog (Cymun) 5-00
11 Oedfa Ddiolchgarwch 5.00
18 Parchedig Dafydd C. Williams 5.00

Yr Ysgol Sul am 10.30
Clwb Dwylo Prysur 6.30 Nos Wener

Croeso Cynnes i Bawb

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i'r disgyblion a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau yn ddiweddar. Hefyd dymuniadau gorau i'r plant ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd – rhai'n dechrau'r ysgol ac eraill yn newid ysgol.

Llongyfarchiadau
i Jackie a'i phriod o Gaerberllan ar eu priodas yn ystod mis Awst. Pob lwc a hwyl i chi'ch dau. Anfonwn ein cofion at bawb sydd wedi bod yn sâl neu sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.

Dychwelyd
Braf yw gweld Mrs Ceinwen Hughes, Llys Eurgain yn ôl ar ôl ysbaid yn gofalu am ei chwaer.

Teledu
Llongyfarchiadau i Ioan Doyle, Tŷ Ffynnon ar ei ymddangosiad ar y teledu gydag Eric Jones ym Mhatagonia, a hefyd yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

Graddio
Llongyfarchiadau mawr i Osian Dafydd, 57, Braichmelyn ar ennill gradd Meistr y Celfyddydau mewn Datblygu Cymuned gyda Theilyngdod ym Mhrifysgol Bangor. Mae Sara, Gwydion, Leah Rhiannon, Mam a Dad Penisarwaun, a'r teulu i gyd yn falch iawn o'th lwyddiant.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Urddo



Llongyfarchiadau i Meriel Parry, merch Llew ac Enfys Jones, 2 Cae Gwigin, ar gael ei derbyn i’r orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a’r Gororau ym Meifod ddechrau mis Awst. Bu Meriel, sydd yn gyn athrawes a chyn brifathrawes, yn weithgar iawn gyda’r Urdd am flynyddoedd lawr, ac fe gofiwn ni yn Nhalybont amdani yn cyd-sefydlu ac arwain y Cylch Meithrin yn y pentref ac yn rhedeg yr Ysgol Sul ym Methlehem. Anrhydedd haeddiannol yn wir!

Newid Aelwyd
Croeso i Margaret a Neville Fernley i’w cartref newydd yn Llys Helyg.

Llwyddiant Cerddorol
Llongyfarchiadau i Beca Nia, 36 Bro Emrys, ar ei llwyddiant offerynnol yn arholiad Theori Gradd 5 gyda’r obo.

Cydymdeimlad
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Hayley Hughes, 24 Cae Gwigin, a fu farw’n ddiweddar, sef Mark a’r plant, Zoe a Leon.

Cydymdeimlwn hefyd â Stephen Jones, 41 Bro Emrys, ar golli ei fam. Hefyd, bu farw Charmaine Lloyd, gynt o Min Ogwen, ac fe gydymdeimlwn â’r teulu yn 2 Bro Emrys.

Drwg gennym glywed am farwolaeth Tony Jones, 28 Cae Gwigin. Rydym yn meddwl am ei briod Rita a’r teulu oll yn eu profedigaeth ac yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf atynt.

Ysbyty
Dymunwn wellhad buan i bawb sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Yn eu plith ‘roedd

Michaela, 23 Bro Emrys, Morfudd,24 Bro Emrys, a Mrs. Marie Jones, 67 Bro Emrys, sydd newydd ddod adref o’r ysbyty. Da clywed hefyd, bod Rhian Haf, 36 Bro Emrys, yn dal i wella.

Cyfarchion Pen-blwydd
Pen-blwydd hapus i Mrs. Marie Jones, 67 Bro Emrys, ar ei phen-blwydd yn 96 mlwydd oed ar 16 Medi, oddi wrth y teulu i gyd.

Arholiadau
Llongyfarchiadau blant ac ieuenctid yr ardal a lwyddodd yn eu harholiadau dros haf.

Priodas



Llongyfarchiadau i Elen Lloyd Davies (merch John ac Enid Lloyd Davies, Bryn Derwas) a Mark Perry, ar eu priodas ym Mhlas Rhianfa, Porthaethwy, ar 30 Awst. Dymunwn hir oes a phob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

Eglwys Maes y Groes

Roeddem yn falch o gael croesawu Mrs Phyllis Davies yn ôl i’r oedfa yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Da deal ei bod yn gwella’n foddhaol. Hoffai Phyllis ddiolch i bawb am eu caredigrwydd, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac wedi dychwelyd adref.

Drwg oedd clywed am ddamwain Val Withers, Cae Bach. Derbyniodd lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ac erbyn hyn mae hi yn Ysbyty Eryri. Dymunwn wellhad buan i chi Val!

Braf iawn oedd gweld meibion Mrs. Gracie Griffiths, Llwyn y Wern, gartref ar eu gwyliau yn ystod mis Awst. Gareth wedi teithio o Oslo a Meirion a’i wraig o Dde Affrica. Roedd Gracie wrth ei bodd yn cael eu cwmni a’u gweld yn edrych mor dda.

Parhau mae’r boreau coffi yn Ysgoldy Maes y Groes ar y dydd Mawrth cyntaf o’r mis o 10.30 – 12.00.

Capel Bethlehem

Oedfaon y Sul

Medi
20 Y Parchg. Trefor Lewis;
27 Ein Gweinidog;

Hydref
04 Y Parchg. Dafydd Job, Bangor;
11 Ein Gweinidog;
18 Y Parchg. Eifion Williams, Llanfairfechan;
25 Oedfa Ddiolchgarwch.

Oedfaon am 2.00
oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Cofion
Anfonwn ein cofion at Ifan Jones, 1 Dolhelyg, yng nghartref Plas Garnedd Llanberis, ac at Idris Thomas, 16 Dolhelyg sydd wedi bod yn yr ysbyty. Ein cofion hefyd at Margaret Hughes (Llys Helyg gynt), sydd wedi gadael Cartref Bryn Llifon a symud i gartref yn y Wirral, yn nes at ei merch.

Bwrlwm
Mwynhawyd “Swper Diwedd Tymor” ardderchog yng Nghlwb Golff Caernarfon ar 7 Gorffennaf. Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau, 24 Medi, am 2.15 - a phob bythefnos wedyn.

Cydymdeimlo
Drwg iawn gennym glywed am farwolaeth Mr Myrddyn Pritchard, sef tad ein gweinidog, yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn ddwys â’r Parchedig John Pritchard a’r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mae Peter yn un o gymwynaswyr mwya’r pentref.

Barbeciw'r Pentref
Cawsom gefnogaeth dda fel arfer, a phawb wedi mwynhau, gyda’r tywydd yn eithaf ffafriol. Diolch i bawb am eu cymorth a’u cyfraniadau.

Gardd Agored Llys y Gwynt
Cafodd Jennifer a John ddiwrnod llwyddiannus iawn eto. Casglwyd £1,194 gyda’i hanner yn mynd at Erddi’r Coleg yn Nhrefnarth a’r hanner arall i’r Cynllun Gerddi Cenedlaethol.

Bingo
Cafwyd noson lwyddiannus arall ar 18 Awst pan gasglwyd £70.50. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Carneddi

Derfel Roberts
Llys Artro, Carneddi
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Genedigaeth
Llongyfarchiadau mawr i Emma a David, Llidiart y Gwenyn, ar enedigaeth mab bychan, William Evan Jac, brawd bach i Cadi Efa a Mali Haf. Rydym yn hefyd yn llongyfarch taid a nain Erw Las, Peter a June, taid a nain Talysarn, John a Brenda, hen daid Rachub, John Jones, a hen nain Garedddwen, Roma Griffith. Ein dymuniadau gorau i chi i gyd fel teulu.

Llandygái

Iona Wyn Jones,
Dyma Fo,
16 Pentref Llandygái, Bangor, LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards,
Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor, LL57 4HU
☎ 01248 351633

Croeso
i Elin a Tommy Smith i’n plith yn dilyn mordaith yn ystod mis Mawrth yn Norwy. Croeso hefyd i Bedwyr Arwel, mab i Gwawr a Michael Jones, Fferm Ffridd - ffarmwr bach arall i’r dyfodol.

Gwellhad Buan
i Peter Bullen, Maes y Coed. Aethpwyd ag ef i Ysbyty Glan Clwyd ar frys mawr ond y mae’n cryfhau bob dydd ac yn diolch i bawb yn y pentref am eu consym.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor LL57 4UP
☎ 01248 351067
Marred567@btinternet.com

Pob lwc
Pob dymuniad da i’r disgyblion hynny o’r ardal sydd wedi dechrau tymor newydd mewn ysgol neu goleg newydd. Mae’n amser cyffrous a heriol iddyn nhw. Gobeithio eich bod yn mwynhau eich profiadau newydd a phob lwc ar gyfer y dyfodol.

Cantorion ar daith
Mae wedi bod yn amser cyffrous hefyd i’r aelodau hynny o Gôr y Penrhyn a Chôr Ysgol Glanaethwy sy’n byw yn yr ardal. Mae Côr y Penrhyn wedi bod ar ymweliad â’r Unol Daleithiau tra cafodd aelodau Côr Ysgol Glanaethwy gyfle i ymweld â

Phatagonia. Mae wedi bod yn ddifyr dilyn ymweliadau'r ddau gôr trwy gyfrwng Facebook. Mae criw Ysgol Glanaethwy yn hel eu pac eto wrth iddyn nhw fynd ar daith arall gyffrous gan gynnal cyngherddau mewn sawl neuadd o fri, gan gynnwys Neuadd y Philharmonic yn Lerpwl, a'r Arena Motorpoint yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Jo Gordon, Hafan, Glasinfryn sydd wedi cael haf prysur iawn yn sefydlu'r siop a'r caffï newydd ym menter Moelyci. Mae'r siop a'r caffï bellach ar agor ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn - lle braf i fwynhau paned a theisen flasus a gwneud ychydig o siopa hamddenol ar yr un pryd!

Rhiwlas

Iona Jones

17 Bro Rhiwen, Rhiwlas

01248 355336

Cydymdeimlo
Yn ystod yr haf daeth profedigaeth i ran sawl teulu yn y pentref ac rydym yn cydymdeimlo â'r canlynol:

Lowri, Fferm Castell, wedi colli'i mam, sef Mrs Elizabeth Ann James o'r Bala; anfonwn ein cofion at Lowri a Dewi a'r wyresau, Dwynwen, Manon Fflur ac Erin.

Hefyd cydymdeimlwn â Mr a Mrs Elwyn Jones, Fferm Tan y Weirglodd, - bu farw modryb Elwyn, sef Mrs Gwyneth Hughes o Fethel, gynt o 'Rynys, Llanddeiniolen. Roedd yn chwaer i'w fam, y ddiweddar Mrs Maggie Jones, Penrhyn Teras.

Yn yr un modd fe gydymdeimlwn â Mrs Margaret Ilsley a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith a modryb, sef Mrs Dilys Maureen Smith o Gaergybi.

Hefyd anfonwn ein cofion at AnwenThomas, Rhydygroes, yn ei phrofedigaeth o golli'i mam, sef Mrs Averill Thomas. Bu Averill yn aelod o Ferched y Wawr Cangen Rhiwlas a hefyd Clwb Rhiwen ac am gyfnod, pan oedd iechyd yn caniatáu, bu hi a Glynne yn mynychu Capel Peniel.

Ymddeoliad
Pob dymuniad da i Mrs Einir Wyn Williams, Ffiolau'r Grug, ar ei hymddeoliad ar ddiwedd tymor yr haf. Treuliodd flynyddoedd ym myd addysg, yn athrawes a phennaeth, a gorffen yn Swyddfa Addysg Cyngor Conwy. Mwynha'r amser hamdden 'rwan ac mae'n siŵr y bydd Gelert wrth ei fodd!

Addysgol
Llongyfarchiadau i'r rhai hynny a fu'n sefyll arholiadau eleni, a

phob dymuniad da i chi yn eich cyrsiau addysg uwch. Bydd newidiadau hefyd i'r plant iau, - rhai'n symud o'r cynradd i'r uwchradd ac eraill yn cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf. Pob hwyl i chi i gyd.

Genedigaeth
Y mae Ken a Lorraine Jones, Hafod Lon, wedi dod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd Jacob Bleddyn i'w mab Daniel a'i wraig Jo, ac mae nain a taid wedi gwirioni! Llongyfarchiadau i chi fel teulu.

Yn yr un modd pob dymuniad da i Aled a Ceri ar enedigaeth eu mab, Oliver Meirion, sydd yn ŵyr bach i Arthur a Glenys Clarke, 24A , Caeau Gleision.

Eisteddfod Meifod
Rydym yn dal i feddwl am Manon Steffan fel hogan o Riwas a braf oedd ei gweld ar y llwyfan fel un o feirniaid y Fedal Ryddiaith. Yn ystod sgwrs â hi ar faes yr Eisteddfod dywedodd iddi fwynhau'r profiad yn arw gan fy annog i ddarllen y nofel fuddugol, sef "Dwy Farwolaeth Endaf Rowlands!" gan Tony Bianchi. Yn ogystal bu Manon yn rhan o drafodaeth ar ysgrifennu i blant yn y Babel Lân. Os ydych yn un o selogion Pobl y Cwm yna fe fyddwch yn falch o glywed fod Manon bellach yn un o sgriptwyr y rhaglen honno.

Pen-blwydd arbennig
Yn ystod mis Gorffennaf dathlodd Gareth Williams, Caeau Gleision, ben-blwydd arbennig. Fe hoffai ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 30 oed. Roedd yn lwcus iawn o'r tywydd, bu parti yn yr ardd ac fe gafodd ddiwrnod bendigedig yng nghwmni ei deulu a'i lu o ffrindiau.

Priodi
Ar Awst 15fed bu priodas Elliw Mai o Gwelfryn a Rob Gaffey, o Fethel, yn y Brifysgol ym Mangor. Roedd y seremoni briodasol yn Neuadd Powys a'r wledd yn Neuadd Pritchard Jones. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd, Elliw yn gweithio i'r BBC ar wefan Cymru Fyw a Rob yn athro yn y cylch. Yn ôl a glywyd roedd canu ardderchog yno, - mae Elliw yn aelod o Gôr Dydd ac roedd nifer wedi dod i fyny i'r briodas. Ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

Wythnos yn ddiweddarach ar 22 Awst roedd Robin Owen, Pen Bonc, Cae Glas, yn priodi â Gabrielle yn Eglwys Llangeinwen, Ynys Môn ac roedd y wledd briodasol yn y Brifysgol ym Mangor. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Erw Las, Bethesda. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi eich dau.

Casglu arian at achos da
Yn ddiweddar bu farw mab bychan Meirion Owen, Pen Bonc,

gynt, a'i briod Lauren, pan ond yn ychydig wythnosau oed. I ddangos eu gwerthfawrogiad am y gofal a gafodd Noa Wyn yn Ysbyty Arrow Park, Lerpwl, maent wedi casglu dros £3,000 at elusen Babanod Newydd-anedig yr ysbyty hwnnw. Yn sicr fe fydd yr uned yn gwerthfawrogi eich ymroddiad a'ch cyfraniad.

Gwaeledd
Bu sawl un o'r pentref yn cwyno dros y misoedd diwethaf, ac anfonwn ein cofion at y canlynol: Mr Robert Jones, Penrhyn Teras,

a fu yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod, Mr Richard Williams, Caeau Gleision a fu hefyd yn yr ysbyty, a Mrs Beryl Griffiths, Castell, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri. Rydym yn falch o glywed fod Robin Owen, Pen Bonc gynt, adref ar ôl treulio cyfnod yn ysbyty Stoke ar ôl anaf. Gwellhad buan i chi i gyd ac mae'n braf gweld Mr John Huw Evans yn codi allan ac yn cerdded o amgylch Bro Rhiwen pan mae'r tywydd yn caniatáu.

Cofion hefyd at y rhai sy'n gaeth i'r tŷ, - gwelir eich colli yn y capel a sawl mudiad yn y pentref.

Cerbyd Priodas Anarferol

Priodas Elliw Mai o Gwelfryn, Rhiwlas a Rob Gaffey, o Fethel. Dyma'r tro cyntaf erioed i D.P. Owens ddefnyddio bws fel cerbyd priodas.

Pentir

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Gorffennaf

1af Rhif 42 Helen Burbage Rhiwlas

2ail Rhif 29 Rodger Butler Abertawe

3ydd Rhif 46 David E Williams Glasinfryn

Clwb 100 Mis Awst

1af Rhif 35 Margaret Williams Rhiwen

2ail Rhif 62 Alison Roberts Rhiwlas

3ydd Rhif 3 Ella Jones Deiniolen

Cydymdeimlad

Fel Eglwys anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at John Rees a'r teulu yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam annwyl yn Mrs Janet Rees, The Lodge, Pentir.

Anwen Thomas, Min yr afon, 11 Rhydygroes, Pentir

01248 355686

Te Prynhawn

Ar brynhawn Sadwrn 29 o Awst cafwyd Te Prynhawn hwyliog a phleserus iawn. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Bendithion Cymysg

Nos Wener, Tachwedd 13, am 6.30 yr hwyr yn y Ganolfan, Glasinfryn, cynhelir noson o ddiddanwch a bwffe – cerddi a darlleniadau hwyliog, digrif, ac ambell un hiraethus, yng nghwmni'r Gwir Barchedig Alun Hawkins, y Parchedig Madaline Brady, a'r Parchedig Liz Williams. Tocynnau ar gael am £5.00

Gwasanaethau'r Sul

Cynhelir y gwasanaethau a ganlyn am 9.45 y bore. Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau:

20.9.15 Cymun Bendigaid

27.9.15 Boreol Weddi

4.10.15 Cymun Diolchgarwch

11.10.15 Boreol Weddi

18.10.15 Cymun Bendigaid

25.10.15 Boreol Weddi

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái.
☎ **600744**

Llwyddiant dau frawd



Dyma lun o Ben Jones sydd nid yn unig wedi cael tair A* ac wyth A yn ei TGAU, ond sydd hefyd wedi pasio cyfweiliadau yn RAF Cranwell (Canolfan Dewis Swyddogion ac “Aircrew”) ac wedi cael ei ddewis i fynd i Goleg Chweched Dosbarth Amddiffyn (DSFC) Welbeck yn Loughborough i astudio ar gyfer lefel A mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, Mathemateg, Ffiseg ac Electroneg. Mae Ben yn gobeithio mynd ymlaen i Brifysgol ac wedyn ymuno â’r RAF fel Swyddog Peirianeg.



Dyma lun o Josh Jones, brawd Ben a enillodd y teitl “Best New Cadet” yn 1310 (Eryri) Sqn Air Cadets. Llongyfarchiadau Josh!

Profedigaeth
Anfonwn ein cydymdeimlad at Alison Jones, Sharon a Pat, Alwyn a Carol, y wyrion a wyresau, a’r gor-wyrion yn eu profedigaeth fawr o golli gŵr, tad a thaid tyner a ffeind, sef Arthur Jones. Roedd Arthur bob amser yn barod iawn ei gymwynas ac yn ffrind da i lawer. Colled fawr i’r ardal!

Llongyfarchiadau
Mae Bethan Tong wedi cael canlyniadau arbennig o dda yn ei harholiadau. Llongyfarchiadau mawr i ti Bethan a phob lwc yn y coleg! Llongyfarchiadau hefyd i bobl ifanc yr ardal sydd wedi gwneud yn dda. Pob lwc i chwithau i’r dyfodol!

Eglwys y Santes Ann a’r Santes Fair

Gwasanaethau

Medi 20: Cymun Bendigaidd
Medi 27: Gwasanaeth Diolchgarwch
Hyd. 4: Gwasanaeth Teuluol
Hyd. 11: Cymun Bendigaidd
Hyd. 18: Cymun Bendigaidd

Dechreuir am 9.45 y.b. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau, yn enwedig ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar y Sul olaf ym mis Medi.

Unwaith eto daeth blwyddyn "Clwb Cant" mynwent St. Ann i ben. Diolch i bawb sydd yn cyfrannu ac os am ail-ymuno cysylltwch â Lynda Owen, 2 Bryniau Terrace, Mynydd Llandygai.

Tristwch mawr i ni fel aelodau yn Eglwys St. Ann oedd clywed am farwolaeth Mr Arthur Jones, Hirdir Villa, cyn Warden ffyddlon am flynyddoedd lawer, cymwynaswr hynaws a chyfaill ffyddlon i ni oll. Hoffem estyn ein cydymdeimlad i’w wraig Alison, Sharon ac Alwyn, a’r teulu oll yn eu hiraeth. Colled fawr i’r ardal.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy’n sâl ar hyn o bryd, - anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ **600192**

Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ **601544**

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Henry Hayward a’i wraig Val, Bro Derfel, Tregarth, ar golli brawd Henry, sef Roderick Hayward, yn Wolverhampton ar 8 Gorffennaf. Magwyd Roderick a Henry yng Nglasinfryn. Roedd Roderick yn 74 mlwydd oed.

Llongyfarchiadau
i Stephen a Sharon Williams, Foelas, ar ddod yn daid a nain eto i Gruff Rhys, ail blentyn Paula eu merch a’i phriod David, yn Llanllechid. Llongyfarchiadau hefyd i Glyn a Mona, Lynona, ar ddod yn hen daid a hen nain.

Llongyfarchiadau i Jonathan Griffiths ar ennill ysgoloriaeth i Brifysgol George Washington DC, Unol Daleithiau America. Mae Jonathan yn ŵyr i Mrs Ann Griffiths, Bro Derfel (gynt o Garneddi), a mab Mark a Diane Griffiths. Mae Mark gynt o Garneddi ond bellach yn byw yn Cary, North Calorina.



Yn ddiweddar, gweithiodd Jonathan ar ymgyrch Hillary Clinton. Mae Jonathan yn gobeithio mynd ymlaen i weithio ym myd gwleidyddiaeth ar ôl graddio ac yna mynychu coleg uwchradd gan ganolbwytio naill ai ar y gyfraith neu bolisi cyhoeddus. Pob lwc iddo; mae’r teulu oll yn hynod falch o’i lwyddiant.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau mawr i Buddug Watcyn Roberts, Pen y Ffriddoedd, aelod o Grŵp Dawnsio Angylion Kelly, a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod. Da iawn ti!

Profedigaeth
Anfonwn ein cydymdeimlad â theulu Dilys Margaret Jones, gweddw’r diweddar Frank Rhys Jones, gynt o Foelas, Ffordd Tanrhiw, a fu farw ar Orffennaf 14 yn Ysbyty Gwynedd yn 92 mlwydd oed. Gedy ei phlant, sef Diana, Margaret a Tom, a’i wyrion a gorwyrion.

Symud tŷ
Pob dymuniad da i deulu Garw, Tregarth, sef Dylan a Gwenan Efans a’u plant Siwnamis, Caleb, Elysteg ac Efnisien, sy’n symud i fyw yn nes at rieni Gwenan ym Mhentraeth, Ynys Môn. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu gan obeithio y byddwch yn setlo i lawr yn fuan yn eich cartref newydd.

Llongyfarch
Llongyfarchiadau mawr i holl ieuenctid yr ardal a lwyddodd yn eu harholiadau TGAU, Lefel Uwch ac sydd wedi graddio eleni. Pob dymuniad da i bob un ohonoch i’r dyfodol.

Priodas Aur
Yn ystod mis Awst fe ddathlodd Oscar a Margaret Jones, Cae Drain, eu priodas aur. Llongyfarchiadau i’r ddau ohonoch.

Gwaeledd
Mae Mrs Beti Whitehead, Gorwel Deg wedi bod yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, ers rhai misoedd ond bellach mae wedi symud i gartref nyrsio yn Wrecsam er mwyn bod yn nes at Kevin ei mab a’r teulu. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati.

Mae dau arall o Dregarth wedi symud o gartref Brynllifon ym Mangor i Gerrig yr Afon, sef Oscar Bowen Jones, Cae Drain a’i chwaer yng nghyfraith Mrs Glenys Clarke, Ffynnon Wen. Anfonwn ein cofion atoch eich dau gan obeithio eich

bod wedi setlo yn eich cartref newydd ac yn teimlo ychydig yn well.

Profedigaeth
Mae Wil a Dilys Parry Williams, Encil, Tal y Cae, wedi cael profedigaeth yn ddiweddar pan fu farw brawd Dilys. Dyma’r eilwaith eleni i Dilys golli brawd ac mae ein meddyliau gyda chi yn eich galar. Ar Awst 30 bu farw Roger Neville Hughes, yn ei gartref Nant y Graean Uchaf, Hendyrpeg, Tregarth. Roedd yn Athro yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, a chydymdeimlwn gyda’i briod Helen, ei ferched Ruth ac Anne, ei wyrion Osian, Matthew ac Evan a’i frawd John Michael.

Gwella
Croeso adref wedi rhai wythnosau yn yr ysbyty i Glyn Williams, Lynona, Ffordd Tanrhiw. Rydym i gyd yn falch o glywed eich bod yn gwella Glyn.

Merched y Wawr

Mae’n dymor newydd sbon i Gangen Tregarth o Ferched y Wawr.. Cynhelir y cyfarfodydd ar y Llun cyntaf ym mhob mis am 7.30 o’r gloch ac mae croeso twymgalon i bawb a hoffai ymaelodi. Mae’n gangen fyrlymus a gweithgar gyda chriw o aelodau bywiog a llawn hwyl.

Ar Hydref 5 bydd y gangen yn croesawu Ceri Owain o Fethesda i siarad ar y pwnc ‘Cymorth Cyntaf’. Dewch atom am awran o fwynhad a chwmpeni.

Y llywydd eleni yw Margaret Jones, Cae Drain, a dymunwn y gorau iddi yn ei gwaith yn arwain y gangen.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

27 Medi Diolchgarwch 10.30 Gosber 6.00
4 Hydref Dim Gwasanaeth. Gwasanaeth ar y cyd â St Tegai am 5.00
11 Hydref Cymun Bendigaidd 9.30
18 Hydref Boreol Weddi 9.30
25 Hydref Cymun Bendigaidd 9.30

Clwb Cant Mis Gorffennaf
1 Keith Jones 66
1 Alun Owen 163
3 Eirwen Williams 121

Clwb Cant Mis Awst
1 Peter Roberts 19
2 Ann Jones 117
3 Muriel Williams 98

Capel Shiloh

Anfonwn ein cofion fel aelodau i amryw o’r aelodau sydd ddim yn rhy dda ar hyn o bryd. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn hyderu y byddwch yn cryfhau yn fuan.

Miri Mehefin
Diolch o galon i bawb o aelodau Ysgol Sul Shiloh, y rhieni a ffrindiau'r Ysgol Sul am helpu i wneud Miri Mehefin eto eleni yn llwyddiant. Diolch i blant yr Ysgol Sul am eu cyflwyniad graenus ac i Christine Morris Jones am ei gwaith yn hyfforddi'r plant ac am arwain y gweithgareddau. Roedd yn hyfryd cael cwmni Wyn Thomas, Bangor, fel arweinydd y canu a Wynn Williams oedd yn cyfeilio mor effeithiol. Roedd yn braf iawn cael croesawu'r Parchedig Gwynfor Williams a ddiolchodd i bawb am bnawn hyfryd o addoliad a llawenydd.

Mwynhawyd y Te Parti yn dilyn y Miri yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Nhregarth. Diolch i chi i gyd. Llwyddiant ieuencid Shiloh Mae'n hynod braf cael llongyfarch nifer o ieuencid sydd â chysylltiad â Chapel Shiloh a lwyddodd yn eu harholiadau eleni. Da iawn chi !

Luke Crowe a lwyddodd yn ei arholiadau TGAU ac yn dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Morgan Jones a lwyddodd yn arholiadau TGAU ac sydd yn cychwyn prentisiaeth gyda Scottish Power yng Nghaer. Tomos Morris Jones a lwyddodd yn ei arholiadau Lefel Uwch yn Ysgol Tryfan , Bangor ac sydd yn cychwyn ar ei yrfa academiaidd yng Nghaerdydd ym Mis Medi Gwynfor Rowlinson ac Annest Rowlinson a lwyddodd yn eu harholiadau Lefel A yn Ysgol Dyffryn Ogwen. I Brifysgol Caerdydd y bydd Annest yn mynd i astudio yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ymgyrch taclo problemau baw cŵn plant Ysgol Tregarth

Wedi iddynt flino cerdded dro ar ôl tro trwy faw ci ar y ffordd i'r ysgol, penderfynodd disgyblion Ysgol Tregarth ddylunio posteri er mwyn amlygu'r problem.

Mae'r posteri erbyn hyn yn rhan o ymgyrch i godi ymwybyddiaeth yn eu cymdeithas, yn targedu y lleiafrif rheiny o berchnogion cŵn, sydd ddim yn glanhau ar ôl eu cŵn.

Bu Jonathan Neale, Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd yn cynorthwyo'r plant gyda'r broses o drosglwyddo posteri ar arwyddion. Ymwelodd â'r ysgol i sgwrsio gyda'r plant am y peryglon iechyd a gysylltir gyda baw cŵn. Dosbarthodd hefyd fagiau gwastraff cŵn am ddim i'r plant i fynd adref gyda nhw i'w rhoi allan i'r gymdeithas.

Cofio am frodor o Fethesda yn yr Iseldiroedd

Hanes
Ganwyd fy Nhaid, Humphrey Watkin Hughes, yn 1916, yn fab ieuengaf i'r Parchedig Richard Rhys Hughes ac Anne Lloyd Hughes. Bu Richard Rhys Hughes yn ficer Eglwys Glanogwen o 1917 hyd at 1947.

Ar ddechrau'r Rhyfel, roedd Humphrey yn y Llynges Fasnachol ond, ym 1940, ymunodd â'r Llu Awyr lle'i hyfforddwyd fel 'Wireless Operator'. Fe briododd fy Nain Catherine Hughes (o Gerlan) yn Nhachwedd 1942 a ganwyd eu hunig fab, Richard Merfyn, yn Ionawr 1944. Yn ystod cyfnod eu carwriaeth a'u priodas, ni threuliodd Humphrey a Catherine lawer mwy nag ychydig ddyddiau ar y tro yng nghwmni ei gilydd ac nid oedd ganddynt gartref gyda'i gilydd.



Humphrey Hughes yng ngardd ficerdy Glanogwen



Y Parchedig Richard Rhys Hughes a'i deulu circa 1940 (Humphrey yw'r trydydd o'r chwith yn y cefn ac mae ei frawd Richard yn y rhes ganol ar y chwith)

O 1940 ymlaen, bu Humphrey'n symud o un orsaf Llu Awyr i'r llall yn hyfforddi. Bu Catherine yn yr Auxillary Territorial Service ym Birmingham am gyfnod. Ddechrau Chwefror 1944, rhoddwyd caniatâd i Humphrey fynd adref i Fethesda ar absenoldeb arbennig i weld ei fab a mynychu bedydd Merfyn yn Eglwys Glanogwen. Roedd y teulu newydd gael profedigaeth lem. Lladdwyd Richard Lloyd Hughes, brawd Humphrey, mewn cyrch awyr dros Frankfurt ar y 24ain o Ragfyr 1943.

Wedi i Humphrey ddychwelyd i RAF Warboys yn Huntingdonshire yn Chwefror 1944, fe'i symudwyd i Squadron 156 Pathfinder, Bomber Command. Ar noson 19 Chwefror 1944, cymerodd ran yn ei gyrch awyr cyntaf gyda'r criw, dros Leipzig yn yr Almaen. Mae cofnodion y Llu Awyr yn nodi i'r Lancaster JA921 gael ei tharo gan 'flak' ar y ffordd yn ôl o'r ymosodiad, dros

Osnabrück. Ar ôl gwirio cyflwr yr awyren, roedd popeth yn ymddangos yn gweithio'n iawn a phenderfynwyd bwrw ymlaen am Warboys. Ond, wrth fynd allan dros y môr o'r Iseldiroedd am Brydain, gwelwyd bod yr injan chwith ar dân.

Catherine a Merfyn Hughes o flaen y ficerdy,



circa 1947

Penderfynodd y peilot droi'n ôl a cheisio gweithredu glaniad argyfwng yn yr Iseldiroedd. Yn anffodus, roedd y tân wedi cynyddu ac, ar ôl colli un o'r adenydd, troellodd yr awyren i lawr, trwyn yn gyntaf, i mewn i'r 'polder' (gors) ger pentref Eemnes yn ardal Utrecht. Llwyddodd un aelod o'r criw, Eddy Kryskow o Ganada, i neidio allan cyn i'r awyren gwmpo, ond fe laddwyd y 6 arall. Cuddiwyd Eddy Kryskow gan y Resistance tan ddiwedd y Rhyfel pan ddychwelodd yn ddiogel i Ganada.

Claddwyd 5 aelod o'r criw ym Mynwent Rusthof yn Amersfoort, ond ni ddaethpwyd o hyd i gorff Humphrey ac mae'n debyg bod ei weddillion yn dal i fod yn y 'polder' gydag olion yr awyren.

Cofio
Yn yr 1980au, daeth pentrefwyr Eemnes at ei gilydd i greu cofeb barhaol i'r rhai a gollodd eu bywydau yn yr ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Adeiladwyd 'cofgolofn rhyddid' ac mae enwau criw'r Lancaster yn ymddangos yno.



Cofgolofn Rhyddid Eemnes, gyda Jan Out

Ar yr 17eg o Orffennaf eleni, cefais y fraint o fod yn bresennol yn nadorchuddiad Bwrdd Coffaol yn agos i'r man lle y daeth yr awyren Lancaster i lawr yn 1944. Mae'r Bwrdd Coffaol wedi ei leoli ar groesffordd fach yn y 'polder'. Roedd cryn ddiddordeb yn y digwyddiad, gyda'r radio a'r papurau lleol yn anfon cynrychiolwyr a ffotograffwyr yno. Cefais groeso mawr gan bobl Eemnes ac roedd yn amlwg bod yr Ail Ryfel Byd yn dal yn fyw yn y cof yno. Er mai dim ond arwydd ar ochr llwybr yw'r Bwrdd Coffaol, mae wedi bod yn gysur mawr i mi na fydd hanes fy Nhaid yn cael ei anghofio ac y bydd yna rywle i fynd i gofio amdano i'r dyfodol. Ann Grenet (Merch Rhiannon a'r diweddar Merfyn Hughes)

Plaid Lafur
Dyffryn Ogwen

Tua diwedd mis Mehefin cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen ac etholwyd y swyddogion a ganlyn:
Cadeirydd: Louise Prendergast, Mynydd Llandygái; Is-gadeirydd: Susan Davies, Hen Barc; Ysgrifennydd: Godfrey Northam, Rachub; Trysorydd: Walter Williams, Bethesda; Trefnydd: K.C. Gordon, Llanllechid;

Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd o’r gangen ar y nos Iau gyntaf bob yn ail fis, gan ddechrau ym mis Medi.

Yna ar ddechrau mis Gorffennaf aeth nifer o aelodau’r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon ac etholwyd y swyddogion a ganlyn: Is-gadeirydd: Gerry Jenson, Tregarth; Swyddog Aelodaeth: Susan Davies, Hen Barc; Swyddog Addysg Wleidyddol: Tom Corns, Carneddi;

Nodwyd bod Siôn Jones (ymgeisydd Plaid Lafur Arfon yn etholiadau Cynulliad Cymru yn rhedeg yn ras y Wyddfa yng nghanol y mis gan lansio ei ymgyrch etholiadol yr un pryd.

Tua diwedd Gorffennaf cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen a phenderfynwyd cynnal y daith gerdded flynyddol ar 3 Hydref - y dyddiad hen i’w gadarnhau. Cafwyd adroddiad ar waith Llywodraeth Cymru, er enghraifft bod y gronfa Byw yn Annibynnol ar gyfer y bobl fwyaf anabl wedi dod i ben yn Lloegr - bydd rhywbeth tebyg yn parhau yng Nghymru am o leiaf ddwy flynedd; Cyngor Gwynedd (e.e. mae Gwasanaethau Cymdeithasol y Sir wedi gwaethgu yn ôl pedwar o’r wyth mesur cenedlaethol ond wedi gwella yn ôl dau arall) a Chyngor Bethesda (e.e. mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y cais cynllunio i adeiladu tai ar safle Austin Taylor).

Os am gynnal bore coffi neu ddigwyddiad arall yn Neuadd Ogwen cysylltwch gyda Dilwyn Llwyd drwy e-bost post@neuaddogwen.com neu drwy ymweld â’r neuadd i drafod.

I hysbysebu yn y Llais neu i dynnu sylw at eich gweithgareddau yn yr ardal, gan gynnwys Dyddiadur y Dyffryn, cysylltwch â’r Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA
☎ 600853

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dyddiadur Digwyddiadau
1927

- Marw Edward Sholto Douglas Pennant.
- 16/02/1927 (Mercher): Plant Cartrefi Barnardo yn cynnal cyngerdd ym Methesda.
- 04/04/1927 (Llun): ‘Dydd Llun diwethaf, daeth bonheddwr i mewn i’r swyddfa waith yn Ogwen Terrace, a gofyn i Mr Penrhyn Jones, yr ysgrifennydd, a oedd ganddo 30 o ddynion yn barod i weithio bore drannoeth am wyth o’r gloch. Atebwyd bod. Cyflogwyd hwy bore dydd Mawrth i osod polion o’r chwarel i’r orsaf drydan ym Methesda. Pan wneir y gwaith hwn o gysylltu’r wifren a’r gallu trydan yn y Chwarel, bydd y goleuni newydd yn barod i’w roi mewn gweithrediad ...’
- 05/1927: ‘Llyn Newydd: Deallwn fod nifer o weithwyr wedi dechrau ar y gwaith o Gronni llyn newydd ym Mynydd Llandegai heb fod nepell oddi wrth Gapel Amana (A). Ei amcan fydd gwneuthur defnydd o’r olwyn ddŵr fawr a osodwyd i lawr rai blynyddoedd yn ôl yn agos i Bont y Sarnau. Paratowyd honno ar y pryd i weithio’r trydan yn Chwarel y Penrhyn ac mae’n ymddangos mai i’r un amcan y codir yr argae hon yn awr. O bosibl y gellir gweithio hwn yn lle’r gallu a ddaw o gyfeiriad Cwm Dyli a Dolgarrog. Amser a ddengys beth fydd y canlyniad’.
- 7/05/1927 (Nos Wener): Cyfarfod Cyngor Dinesig Bethesda: ‘Darllenwyd llythyr oddi wrth nifer fawr o ffermwyr a masnachwyr yn gwrthdystio yn erbyn tario’r ffyrdd oherwydd y byddant yn beryglus i geffylau drafaelio. Pasiwyd nad oedd tar i’w roi ar y gelltydd’.
- 08/06/1927 (nos Fercher): ‘Y Trydan: ... Rhoddwyd yr anrhydedd o ollwng y trydan

trwy’r ardal am y tro cyntaf i Mr W. R. Roberts, [Pant] cadeirydd y Cyngor Dinesig ... Saith o’r gloch oedd yr awr benodedig a daeth aelodau’r Cyngor yn fintai gryno i ymyl y swyddfa drydan i fod yn dystion o fflachiad y golau newydd dros y fro.’

- Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caergybi: Caradog Prichard yn ennill y Goron am ei bryddest ‘Y Briodas’ a hynny yn 22 oed.
- Côr Ysgol y Cefnfaes yn cael y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y gân werin ac yn y brif gystadleuaeth gorawl yn Eisteddfod Genedlaethol Caergybi – y tro cyntaf erioed i hyn ddigwydd yn yr Eisteddfod yng Ngogledd Cymru.
- Y Cyngor Dinesig yn cael cwynion fod plant yn taflu cerrig at y polion trydan newydd.
- Y Cyngor Dinesig yn derbyn dau amcan-bris am gysylltu trydan i ‘amryw o dai yn Llanllechid’. Pris Mr Smale, Bethesda, a dderbyniwyd (sef 13s y tŷ) yn erbyn pris Owen a Palmer, Bangor (£1.10s y tŷ).
- 09/1927: Marw William John Parry (a aned 28/09/1842), ‘The Quarryman’s Champion’, yn 84 oed. Cynhebrwng bach preifat. Claddwyd ef, gyda’i ail briod, ym Mynwent Eglwys Maes-y-Groes.
- 10/1927: Gadawodd yr Arglwydd Penrhyn, wedi profi’i ewyllys: £713,134.00. Gadawodd £100,000 yr un i’w ferched, £1000 i’w gefnder (ysgutor ei ewyllys), Claud Douglas Pennant, a gadawodd i’w weddw £10,000, ei holl anifeiliaid o waed, yn cynnwys ceffylau rhedeg, ei eiddo tŷ a phersonol, a nwyddau yn Wicken Park a’r defnydd o Wicken a’r tir yno, ac incwm blynyddol o £4000. Gadawodd weddill ei holl eiddo i’w fab.
- 10/1927: Gwerth holl eiddo W. J. Parry, wedi profi’i ewyllys: £230-2-0.
- Ffurio Cymdeithas Adar Bethesda.

I’w barhau

DRAMA GYNTAF I'R DRAMODYDD IFANC O SARN

Mae drama newydd gan un o ddramadwyr mwyaf cyffrous Cymru yn mynd ar daith o gwmpas y wlad yr Hydref yma (15 Medi - 09 Hydref), ac yn dod i Neuadd Ogwen ar y 17eg o Fedi.

Yr actorion Bryn Fôn a Gwenno Hodgkins, sydd yn byw yn Gerlan, fydd yn perfformio yn Drych, cynhyrchiad cyntaf Llŷr Titus sydd yn seiliedig ar ddau gymeriad sy'n sgwrsio’n ddiwyd am ryfeddodau a chymhlethdodau bywyd.

Cwmni’r Frân Wen sy'n cyflwyno'r ddrama Gymraeg rymus newydd yma fydd i’w gweld ar lwyfannau theatrau led led Cymru.

Yn ôl y cyfarwyddwr Ffion Haf, mae Drych yn gofyn cwestiynau tywyllaf am fodolaeth dyn: "Drwy Drych cawn adlewyrchiad o daith dau sy’n ysu i ddeall mwy am eu bodolaeth drwy drafod y dwys a’r doniol, y materol a’r ysbrydol."

Daeth Llyr, 22 oed o Sarn, i gyswllt a Chwmni'r Frân Wen drwy gynllun ysgrifennu newydd i bobl ifanc sy’n cael ei redeg yn flynyddol gan y cwmni.

"Bu Llyr yn gweithio gydag Aled Jones-Williams fel rhan o gynllun Sgript i Lwyfan sy’n adnabod a mentora dramodwyr ifanc. Roedd yr ymateb i ddarlleniad cyhoeddus o waith Llyr mor bwerus roedd yn rhaid i ni lwyfannu ei waith yn syth - roedd y gynulleidfa methu credu i ddramadwr ifanc lunio sgript a syniadau mor aeddfed," meddai Ffion.

"Mae'n bwysig ein bod yn rhoi llwyfan i'r lleisiau ifanc newydd cyffrous yma oherwydd nhw yw dyfodol theatr."

Meddai Llyr, sydd yn fyfyrwr MA mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor: "Roedd cael gweithio gydag Aled Jones-Williams yn eithriadol, roedd o’n brofiad buddiol nid yn unig o ran gallu trafod syniadau hefo rhywun profiadol ond hefyd i gael amser ac anogaeth i fynd ati i ‘sgwennu.'"

Mae noson agoriadol Drych yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli ar 15 Medi (7.30pm)
17/9 Neuadd Ogwen Bethesda 1pm & 7.30pm 01248 208 485 www.neuaddogwen.com

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk





SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
e-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260
07761619475



www.owenswales.co.uk

Y BWTHYN TE

pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTALA
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am. - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN * YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY





S4C

y gwyl.

hinterland

9.00

13 Medi

Dirgelwch a chelwyddau, mae'r gyfres ddiectif yn ôl!

#ygyll
s4c.cymru

Nodir gan



CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Trefnydd : Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth, BANGOR, Gwynedd LL57 4BA. (01248) 600798

E-bost = dafydd@caerwern.cymru

RHAGLEN 2015/2016

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr ail Nos Lun ymhob mis am 7.00 o'r gloch AG EITHRIO cyfarfod mis Hydref. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am 7.30 o'r gloch

Lleoliad y cyfarfodydd : Festri Capel Jerusalem, Bethesda

2015

Nos Lun 12 Hydref7.00 Y CYFARFOD BLYNYDDOL

7.30 Gari Wyn – John Owen Ty'n Llwyn (1808 – 1876) a'i gyfnod

Nos Lun 9 Tachwedd7.00 Dr. John Ll. Williams – Thomas Telford a Bethesda

Nos Lun 14 Rhagfyr7.00 Dr. J. Elwyn Hughes a Derfel Owens – Ar y Bysus

2016

Nos Lun 11 Ionawr7.00 Bethan Jones Parry – Cais Safle Treftadaeth Byd Y Diwydiant Llechi

Nos Lun 8 Chwefror7.00 Bob Morris– "Teml Fawr Diwydrwydd" – Dau Gymro, a'r Palas Grisial

Nos Lun 14 Mawrth7.00 Dr. Dafydd Roberts – "Dros Ryddid a Thros Ymerodraeth": Ymatebion i'r ymgyrch recriwtio yn Nyffryn Ogwen [Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]

FFI AM Y CWRSS£6.00 i rai mewn gwaith

Y ffioedd i'w talu i Dafydd Roberts cyn noson gyntaf y tymor, os gwelwch yn dda. Sicciau yn daladwy i : Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.£3.00 i bensiynwyr a'r di-waith

Plant ysgol am ddim

Cost darlithoedd unigol = £1.50

Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2015/16:

Cadeirydd : Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog, Tregarth (01248) 602021

Trefnydd / Trysorydd: Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth. (01248) 600798

Ysgrifennydd : Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415

Nyth y Gân

Eog mewn Cas Gwydr



Yn yr hydref, er brwydro, yn deilwng Fe'i daliwyd a'i rwydo; O adael pwll y neidio, Ar y mur yn awr mae o.

Diolch

Fe blannodd yr hadau mor ysgafn a glân A'u gweld hwy yn bethau di-ddim ac mor fân; Gobeithion pur uchel oedd gan yr hen ŵr 'R ôl eu rhoi yn y pridd hefo 'chydig o ddŵr.

Arhosodd am fisoedd, drwy'r gaeaf yn wir, I weld a oedd deffro hyd wyneb y tir; Ni chafodd ei siomi 'r ôl tyfiant fel hyn A'r blodau yn dalsyth yn goch ac yn wyn.

Daeth gwên ar ei wyneb a deigryn 'r un pryd Wrth wyllo y tyfiant mor lluniaidd a mud, A thrwy y blynnyddoedd ni fethodd un waith Â llwyddo i yrru'r rhai hyn ar eu taith.

Ail-blannodd y cyfan yng nghornel yr ardd Gan droi ei holl lety yn hynod o hardd; Y glöyn a'r gwenyn a ddaeth yn eu tro I ganfod a blasu yr hyn dyfodd o.

Ei fywyd newidiodd, mor llon ydoedd ef Yn teimlo yn aelod o'r ardd ac o'r nef; Wrth ddiolch bob bore am allu i wneud Bu'r gŵr ar ei liniau yn dawel yn dweud:

"O, diolch am ddoniau rhyfeddol fel rhain Sy'n edrych i'r llygaidd yn brydferth a chain; Mor hyfryd yw'r cyfan yn lliwgar a braf - Cânt farw yn dawel fel marw yr haf."

Dafydd Morris

Ein Hargyfwng

Ai enaid heb hunaniaeth, - ai calon Yn ceulo heb hiraeth; Ai hil wan heb olyniaeth Yw'r Gymru sy'n Gymru gaeth?

Dewis Gwynedd

Y bedd yw'n hen anheddau Â'r bladur ar y blodau, Y caeth mewn cist wedi'u cau.

I'n hynafiaid bu'n nefoedd, Di-graith unwaith i gannoedd, Yn wlad ir. Ai eiliad oedd?

Heddiw nid oes ond addo Y gwell, a thalog eillio Y gwraidd a'i daflu i'r gro.

Addawol fai addewid Annog y llwfr rhag y llid, Rhag darnio'r gwâr gadernid.

Goronwy Wyn Owen

Gair neu ddau

DADL BERYGLUS

Yn draddodiadol, cyfnod cymharol dawel fu misoedd yr haf i newyddiadurwyr gwleidyddol. Heb weithgareddau seneddol i adrodd amdanynt, cafwyd tuedd i sgwennu pob math o straeon digon diddim er mwyn llenwi tudalennau'r papurau newydd yn nhymor y cŵn. Ys dywed y Sais, dyma'r 'silly season'. Ond nid felly eleni. A dau beth sydd wedi esgor ar gannoedd o erthyglau ac wythnosau o drafod yw'r frwydr am arweinyddiaeth y Blaid Lafur ac argyfwng y ffoaduriaid sy'n ceisio lloches yng ngwledydd Ewrop.

Wrth drafod brwydr fewnol y Blaid Lafur, gwrthwynebiad Jeremy Corbyn i arfau niwclear oedd yn poeni Canghellor Trysorlys San Steffan, George Osborne. Soniodd am 'gynghrair anfad rhwng terfysgwyr adain chwith Llafur a'r Cenedlaetholwyr Albanaidd, sy'n fygythiad i'n diogelwch ac i'n gallu i fod yn gynghreiriaid da i eraill'. Yn ôl Osborne, mae'r rhain 'yn fygythiad i'n diogelwch cenedlaethol ac i'n diogelwch economaidd yn y dyfodol. Rydym am herio eu dadleuon peryglus a'u gorchfygu.'

Nid cenedlaetholwyr Albanaidd ac 'adain chwith eithafol' y blaid Lafur yn unig sy'n gwrthwynebu polisi'r Llywodraeth o ddatblygu a chynhyrchu rhagor o arfau niwclear. Mae eraill yn galw am wario arian ar bethau amgenach nag arfau Trident. Yn eu plith y mae miloedd o Gristnogion sy'n

credu nad trwy rym arfau y mae sicrhau heddwch a chyfiawnder. Os ydym yn gwrthwynebu arfau niwclear, ar sail ein ffydd Gristnogol neu ar ryw sail arall, yr ydym ninnau yn ôl Mr Osborne yn rhan o'r 'gynghrair anfad' sy'n bygwth 'diogelwch cenedlaethol a diogelwch economaidd' y gwledydd hyn. Os ydym yn dadlau dros wario'r arian ar ysbytai ac ysgolion ac ar gynorthwyo'r tlodion, yn hytrach nag ar arfau Trident, gallwn ddisgwyl y bydd Mr Osborne a'i debyg yn gwneud popeth o fewn eu gallu i herio ein 'dadleuon peryglus' ac i'n gorchfygu.

Ac o beidio â gwario'r miliynau o bunnoedd ar arfau niwclear, byddai arian hyd yn oed ar gyfer helpu ffoaduriaid! Yn aml iawn, yr union bobl sy'n cyfiawnhau'r gwariant ar arfau sydd hefyd yn cyfiawnhau cadw ffoaduriaid draw am y byddent yn peryglu ein gwasanaeth iechyd a'n gwladwriaeth les. Maent am i ni gredu na allwn fforddio helpu'r bobl hyn sy'n ffoi o Syria ac Affganistan a gwledydd eraill. Arfau niwclear neu beidio, arian neu beidio, onid un o'r pethau y mae'r Arglwydd Iesu Grist yn ei ddysgu i ni yw na allwn fforddio peidio â helpu'r bobl hyn? 'Yn wir rwy'n dweud wrthyech, yn gymaint ag ichwi beidio â'i wneud i un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau chwaith' (Mathew 25:45).

JOHN PRITCHARD

Ymgwymerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth

M.O.T. ar gael

Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth

Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda

☎ 601031

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWYR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Croesair Medi 2015

AR DRAWS

- 1 Mae'r go' bach yn chwythu hon medd 'Migldi-Magldi' (5)
- 4 Ydi gŵr nain wedi symud i'r de ? (5)
- 10 Rhadlon a hael wrth dwtio'r gors lân (7)
- 11 Y clinc (5)
- 12 Anhwylder, a phigiad i'w drechu'n flynyddol (1,4)
- 13 Ia, drws i drigolion gwlad fwyaf Ewrop (7)
- 15 Fflamau sy'n difa popeth (4)
- 17 Criodd am na allai ddefnyddio'r fuddai oedd wedi torri (5)
- 19 Nid oes staen ar y ferch yma pan fydd hi o gwmpas ei phethau (5)
- 22 Carreg werthfawr o Awstralia (4)
- 25 Y gêr rywsut yn y plu, ond nid yn ei ddiogelu o bell ffordd (7)
- 27 Rhaib am hwn sy'n difa 20 I LAWR (5)
- 29 Rhoi hanner cant ym mhen draw 2 I LAWR i gael perthynas agos iawn (5)
- 30 Canwr ar ben ei hun (7)
- 31 Cloddio a thyllu (5)
- 32 Ai mewn cwpan de y mae'r un mwyaf diniwed ? (5)

I LAWR

- 2 Lleoliad 1 Ar Draws (5)
- 3 Dirprwy gadeirydd efallai (7)
- 5 Mynyddoedd Trevelin ac Esquel ym Mhatagonia (5)
- 6 Siap lleuad newydd (7)
- 7 Cael sbel fach yn y gwely wrth droi a throsi (5)
- 8 Geiriau cyntaf llawer o chwedlau plant (2,3)

- 9 Lle ger y felin ddŵr gynt i drin gwlân, ac un i Tudur ger Llanrwt (5)
- 14 Asgwrn o'r penelin i'r arddwrn (4)
- 16 Ai Sian Owen, Ty'n-y-Fawnog biau'r enwocaf yng Nghymru? (4)
- 18 Udo'r blaidd, yn yr eira tybed (7)
- 20 Nellie, Babar neu Dumbo (7)
- 21 Yn ymwneud â'r golwg (5)
- 23 "Yn ddrud fel -----", paid tisian (5)
- 24 "A phwy sy'n eistedd ar y to, Ar bwys y ----- fawr" (5)
- 26 Yr oedd yn medru (5)
- 28 Mae'n dili-dalian yn betrusgar (5)

ATEBION CROESAIR GORFFENNAF/AWST 2015

- AR DRAWS 4 Sofren, 5 Tawe, 7 Methiant, 10 Codwm, 11 Lleianod, 12 Rygbi, 14 Aflonydd, 15 Cyfle, 16 Adnabod, 20 Gwybu, 21 Fesul Un, 22 Syml, 23 Llysenw
- I LAWR 1 Efaill, 2 Llenni, 3 Cawodydd, 4 Slei, 6 Enwebu, 8 Aeddfedu, 9 Tafodaf, 10 Cor y Rhos, 13 Cymwys, 14 Alabama, 17 Bedydd, 18 Dudew, 19 Tusw

Croeso'n ôl wedi gwyliau'r haf. Cliw 23 Ar Draws oedd yr unig un i achosi penbleth. Yr ateb cywir oedd 'llysenw', ond cafwyd 'ffygenw' gan ddau gynnig, ac un yn cynnig 'cyfenw'. Gan y canlynol y cafwyd atebion cywir : Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Dilys Parry, Derek a Mai Jones, Rhiwlas; E. E. Roberts, Llanberis; Doris Shaw, Bangor; Donna Coleby, Penwortham; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gareth William Jones, Bow Street; Rosemary Williams, Sara a Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Myra E. Evans, Niwbwrch; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Karen a Tom Williams, Dylan a Meinir Rowlands, Llanllechid; Ann a Dafydd Evans, Penisarwaun.

	1	2		3		4	5		6		
7					8					9	
10							11				
12						13	14				
				15	16						
	17	18					19	20			
21					22	23					24
25				26				27		28	
29						30					
	31						32				

Atebion erbyn 1 Hydref i 'Croesair Medi', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

Y cyntaf allan o'r het sy'n derbyn y wobr, sef Elfed Evans, 12 Hen Barc, Llanllechid, Bethesda. LL57 3RS. Llongyfarchiadau mawr.

CHWILAIR MEDI 2015

Gloynod Byw

G	A	N	I	D	E	R	F	F	Y	C	N	Y	S	E	L	G	A	W	F
H	W	R	D	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V
S	H	Y	E	D	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	G	Z	M	X	V
A	D	D	N	N	R	A	P	A	U	Q	U	G	S	W	G	T	O	B	F
H	R	S	P	M	Y	Y	Q	Z	G	R	W	H	E	C	O	R	U	R	M
C	W	N	R	O	A	Y	W	R	I	I	A	I	S	Z	I	I	U	I	T
O	F	D	X	O	U	W	P	G	B	W	R	R	H	C	P	L	Q	T	H
G	W	E	H	O	G	Y	R	I	N	L	E	E	G	E	R	L	O	H	M
L	H	E	P	T	T	Y	W	C	O	I	B	B	C	U	A	I	U	E	J
L	P	L	T	M	I	R	G	Y	V	V	B	D	C	B	G	W	B	G	F
E	R	F	O	G	L	J	N	E	V	I	I	I	R	R	L	B	X	B	I
T	M	H	T	L	T	B	O	S	H	K	O	P	R	W	L	A	H	E	R
N	C	M	W	K	R	C	B	O	R	T	C	X	V	H	E	C	C	R	R
A	Y	Y	H	Y	S	T	M	R	E	F	I	Y	J	D	T	H	A	L	Z
M	D	H	C	B	C	W	O	S	C	R	A	R	I	X	N	I	B	O	N
I	L	H	X	J	J	M	B	W	T	E	X	M	B	D	A	X	R	G	K
B	O	N	E	D	D	I	G	E	S	Y	W	I	G	F	M	U	O	B	P
C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D	G	P	W	S
L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	N	L	R	V	O	G	O	J	P
W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S	V	T	X	E	C	U	G

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg GLÖYN BYW. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, a.y.b. yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Medi 30 . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Ffair Hydref Ysgol Llanllechid

26 Medi 2015
11.00 tan 3.00

Adloniant, gemau, stondinau, bwyd a digon o hwyl i'r teulu cyfan

Mynediad £1 i oedolion a phlant am ddim

Croeso Cynnes i Bawb!

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA

LLENWTR CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

Sesiynau Siarad i
Ddysgwyr

11-12, Ail Ddydd Sadwrn
bob mis ym
Marchnad Ogwen
11-12, 4ydd Dydd Sadwrn
bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i
wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar
01248 602131

Canolfan Cefnfaes
BETHESDA

GYRFA CHWIST

22 a 29 Medi
13 Hydref

am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau
nosweithiau difyr

Canolfan Cefnfaes

BORE COFFI

Eglwys Crist
Glanogwen

Sadwrn 19 Medi

10.00 tan 12.00

Seminar Hanes Merched

Hen Goleg, Prifysgol Bangor

Sadwrn, 26 Medi, 2015

10.00am i 1.00pm

Neuadd Ogwen
Bore Coffi

Plaid Cymru

26 Medi 2015

10.00 - 12.00

Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes

Bore Coffi

Capel Jerusalem

3 Hydref 2015

10.00 - 1.00

Mynediad £1.00

Neuadd Ogwen

Bore Coffi Arbennig

Cymorth i'r Ffoaduriaid

24 Hydref 2015

10.00 - 12.00

Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes

BORE COFFI

Sefydliad y Merched,
Carneddi

Sadwrn 17 Hydref 2015

10.00 tan 12.00

Mynediad £1.00

Clwb Criced a Bowlio Bethesda

Lon Newydd, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT

Lleoliad Gwych ar Gyfer Pob Achlysur

Cyfleusterau Gwych ar gael i Fudiadau,
Cymdeithasau a Thrigolion

Partion, Bedydd, Cyfarfodydd, Gigs,
Digwyddiadau, Cynhadleddau, Priodasau a llawer
mwy...

Dyddiau ac amseroedd hyblyg ar gael ar gyfer
llwyth Clwb a Prisiau rhesymol

Oriau Agor:

Sul: **Ar Gais**
Llun: **Ar Gais**
Mawrth: **Ar Gais**
Mercher: **Ar Gais**
Iau: **8-12**
Gwener: **7-12**
Sadwrn: **7-12**

Cyfleusterau: 3 ystafell lawr / 2 far / Llwyfan / Cegin, gada chylfarpar / Digan o le parcio / Swcer a Pwl

Manylion Cyswllt: Ffôn: (01248) 600833, E-bost:
cricedbethesdacricket@outlook.com,

YN EISIAU!
GWIRFODDOLWYR!

Mae Neuadd Ogwen angen
mwy o wirfoddolwyr i helpu
yn ystod ein digwyddiadau.

Mae yna amryw o feysydd
gallwch wirfoddoli ynddynt, sef:

- Gwerthu Tocynnau
- Gwirfoddoli yn y Bar
- Gwirfoddoli yn y Caffi
- Rheoli'r Taflunydd yn ein
nosweithiau ffilm
- Stiwardio

Mae gwirfoddoli yn gyfle da i
gryfhau eich CV, i gymdeithasu,
ac yn gyfle i fod yn rhan o
brosiect arbennig yma yn
Nyffryn Ogwen.

Cofiwch: Eich Neuadd chi yw
hon!

Am ragor o wybodaeth:
Cysylltwch ag Owain ar 01248
208 485 neu 07442 532 746
owain@neuaddogwen.com
neu gyrrwch neges drwy
dudalen Facebook y Neuadd

  Undeb
Credyd
Gogledd
Cymru

Pwynt Casglu Undeb Credyd
Gogledd Cymru

Swyddfa Partneriaeth Ogwen
26 Stryd Fawr, Bethesda
Bob Dydd Mawrth : 12.30 –
2.30

Gwasanaeth Newydd wedi
dechrau ers 30.6.2015

Gwybodaeth:
partneriaeth@ogwen.org neu
01248 602131

DYDDIADUR BOREAU COFFI 2015

19 Medi – Cefnfaes – Eglwys Glanogwen.
26 Medi – Neuadd Ogwen - Plaid Cymru.
03 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Jerusalem.
17 Hydref – Cefnfaes – Sefydliad y Merched Carneddi.
24 Hydref – Neuadd Ogwen – Cymorth i'r Ffoaduriaid.
31 Hydref – Neuadd Ogwen - Eisteddfod D. Ogwen.
28 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Ffair Nadolig y Blaid Lafur.

Pwysig
*Os ydych yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr
uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym
Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Marchnad Ogwen

Ar yr ail fore Sadwrn o bob mis yn Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30

Hydref 10fed, Tachwedd 14eg a Rhagfyr 12fed (Nadolig)

Hefyd, mae Marchnad Nadolig NOS Fercher, Tachwedd 25ain am 6yh

**Bwydydd, cynnyrch lleol a chrefftau o bob math
Stondin Elusen a Stondin 'Un Tro' bob mis**

**** Cyfle i ennill £50 a 2 x £25 ym Marchnad Rhagfyr ****

CEFNOGWCH EICH CYNHYRCHWYR LLEOL YN EICH MARCHNAD LEOL

www.marchnadogwen.co.uk Facebook a Twitter @MarchnadOgwen



S4C

Ar y Dibyn

**9.30
8 Hydref**

Brwydro yn erbyn yr elfennau dros fynyddoedd a llynnoedd - bydd wyth cystadleuydd yn wynebu cyfweiliad caletaf eu bywyd am swydd fel arweinydd antur awyr agored.

#arydibyn
s4c.cymru

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Canlyniadau Arholiadau

Yr oedd canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol eleni yn ardderchog. Enillodd 97% o'r hyn sy'n cyfateb i 5 o raddau A*-C, ac ni adawodd yr un disgybl heb ennill cymhwyster. Mae canlyniadau'r ysgol wedi gwella bob blwyddyn ers i Estyn ddyfarnu dair blynedd yn ôl fod Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol ragorol. Mae'r canlyniadau yn glod i ymroddiad y disgyblion, i gefnogaeth eu rhieni, ac i waith caled yr athrawon wrth baratoi'r disgyblion. Roedd y canlyniadau yn dda iawn ar draws yr ystod gallu, ond mae'n rhaid rhoi clod arbennig i bedwar disgybl – Luke Crowe, Manon Hughes, Ben Jones a Rhiannon Llwyd – am ennill graddau A neu A* ymhob un pwnc. Tipyn o gamp!



Dyma lun 3 bachgen a gafodd ganlyniadau rhagorol – Ben Jones, Daniel Evans a Luke Crowe.

Yr oedd y canlyniadau Lefel A hefyd yn dda iawn gyda phob myfyriwr yn llwyddo i fynd i'r coleg neu gwr's o'u dewis. Mae'n rhaid llongyfarch tri yn arbennig am ganlyniadau rhagorol – Bethan Hughes, Mari Davies a Gwynfor Rowlinson. Rhyngddynt enillodd y tri 4 gradd A* ac 8 gradd A. Canlyniadau anhygoel! Mae Bethan yn mynd i



Rydychen i astudio Saesneg, Gwynfor yn mynd i Gaerwysg (Exeter) i astudio Gwleidyddiaeth, Athroniaeth ac Economeg a Mari am gymryd blwyddyn allan i ganolbwyntio ar hwylïo cyn mynd i'r brifysgol i astudio Meddygaeth.

Dyma lun o dair merch hapus iawn ar ddiwrnod y canlyniadau lefel A – Seirian Puw, Glesni Jones a Rebecca Walker.

Blwyddyn 7

Braf iawn oedd cael croesawu 77 disgybl newydd i flwyddyn 7 ar ddechrau'r tymor yma. Buont yma ar sawl ymweliad yn ystod blwyddyn 6 ac erbyn hyn maent wedi hen setlo!



Charlotte Speddy

Mae'r ysgol yn cydymdeimlo'n ddwys iawn gyda theulu Charlotte Speddy. Flwyddyn yn unig yn ôl roedd Charlotte yn derbyn ei chanlyniadau TGAU yn yr ysgol cyn mynd ymlaen i Goleg Menai. Roedd gan bawb yn yr ysgol feddwl y byd ohoni gan ei bod yn ferch gwbl arbennig oedd wedi brwydro'n anhygoel o ddewr ond yn gwneud hynny'n gwbl ddigwyn. Doedd Charlotte byth yn cwyno nac yn dymuno cael ei thrin yn wahanol. Mae Thomas ei brawd yn y Chweched Dosbarth ac yr ydym fel ysgol yn cydymdeimlo'n llwyr gyda'r teulu i gyd. Bydd colled enfawr ar ei hôl.

Athrawon Newydd

Yr ydym yn croesawu pedwar athro newydd ar ddechrau'r tymor, Miss Jeni Davies yn athrawes Technoleg Gwybodaeth, Dr Mark Pitt yn dysgu Mathemateg, Mrs Gill Murray yn athrawes Dylunio a Thechnoleg a Miss Alaw Llewelyn Roberts i ddysgu Saesneg. Rydym yn ffodus iawn o gael criw o athrawon ifanc a brwdfrydig!

Llys Dafydd



Ar gais Cyngor Cymuned Bethesda bu criw o ddisgyblion yn clirio, chwynnu a thwtio cyffredinol yn Llys Dafydd. Roedd y lle'n werth ei weld ar ôl eu gwaith caled. Diolch hogia!

Darganfod Dyffryn Ogwen.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd rhai o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn cymryd rhan mewn prosiect cyffrous newydd yn y Dyffryn - Darganfod Dyffryn Ogwen. Byddant yn crwydro'r ardal yn tynnu lluniau ac yn ffilmio er mwyn creu ffilm am eu cynefin. Hefyd, byddant yn tynnu lluniau i'w dangos mewn arddangosfa ar ddiwedd y prosiect. Byddant hefyd yn ymweld â gwahanol leoliadau o fewn y dyffryn yn ogystal â holi rhai o drigolion yr ardal er mwyn darganfod mwy am hanes, cymeriad a phrydferthwch ein dyffryn. Arweinir y prosiect gan Heddlu Gogledd Cymru, Partneriaeth Ogwen, Partneriaeth Cwm Idwal a Neuadd Ogwen, ac ariannir y prosiect gan wahanol gronfeydd lleol gan gynnwys Mantell Gwynedd, PACT, CAE, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Spar.

Ysgol Tregarth

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Mared a Mr Alan Gwyn-Jones ar enedigaeth eu merch fach, Seirian Rhodd. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at weld Mrs Mared Gwyn-Jones a Seirian Rhodd yn fuan iawn.

Dymuniadau gorau

Pob hwyl i Mrs Cerys Roberts yn ystod ei chyfnod mamolaeth. Bydd y plant a'r staff yn gweld ei cholli.

Croeso

Croeso cynnes i Miss Eleri Davies i Ysgol Tregarth. Mae Miss Davies yn dod atom i ddysgu Blwyddyn 5 a 6 dros gyfnod mamolaeth Mrs Cerys Roberts. Rydym yn siŵr y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Eleni, rydym yn croesawu 16 o blant i'r Dosbarth Meithrin. Mae pawb wedi setlo'n wych ac yn mwynhau dod i'r ysgol bob prynhawn. Pob hwyl i bob un ohonynt ar gychwyn eu taith yn yr ysgol. Rydym hefyd yn falch o gael cwmni disgyblion y Dosbarth Derbyn yn yr ysgol trwy'r dydd. Maent hwythau wedi setlo'n ardderchog ac yn mwynhau bod yma trwy'r dydd a chael cinio ysgol! Croeso hefyd i 4 plentyn newydd i'r Dosbarth Derbyn, sef Lana, Anwn, Bonnie a Jessica.

Croesawn Katie May Wilkinson i ddosbarth Tryfan. Mae Katie wedi symud o ysgol Pen-y-bryn ac yn ymuno â dosbarth Mr Walton. Pob hwyl iddi ym mlwyddyn 3. Edrychwn ymlaen at flwyddyn llawn hwyl a gwaith diddorol.

Croeso cynnes i Jessica Hogan sy'n ymuno â dosbarth Ogwen gyda Miss Davies. Mae Jessica wedi symud o Ysgol Llandygai ac wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd yn yr ysgol yn barod. Pob hwyl iddi ym mlwyddyn 6.

Ysgol Pen-y-bryn

Ffarwelio!



Ar ôl 26 mlynedd o wasanaeth i Ysgol Pen-y-bryn, bu i ni ffarwelio â Mr Glyn Jones ddiwedd y tymor. Daeth Mr Jones i ysgol Pen-y-bryn ar ei ymarfer dysgu o’r Coleg i ddechrau ac yna cael swydd yma. Roedd yn athro llawn hiwmor, gyda chenedlaethau o blant wedi cael modd i fyw yn ei gwmni. Cafwyd cyfarfod ffarwelio hwyliog wedi ei lunio gan Mrs Morgan Jones a Blwyddyn 6 a the parti hyfryd wedi ei baratoi gan gaffi Coed y Brenin gyda hen ffrindiau , tri cyn brifathro , sef Mr Arfon Evans, Mrs Orina Pritchard a Mr Ioan Gruffydd a’r Llywodraethwyr. Trefnwyd hefyd bod gwraig a phlant Mr Jones yn cyrraedd fel ‘syrpreis’.

Penodwyd Mrs Carys Owen fel athrawes Blwyddyn 4- croeso i Ysgol Pen-y-bryn!

Bu’n rhaid i ni ffarwelio gyda Miss Emily Pritchard yn ogystal gan ei bod hi’n mynd i Brifysgol Bangor ym mis Medi. Diolchwn iddi am ei holl waith caled a dymunwn yn dda iddi i’r dyfodol.

Priodi

Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Bethan Wyn Hughes, athrawes Dosbarth Glyder Fach ar achlysur ei phriodas ddechrau Awst. Gobeithio ei bod yn barod am flwyddyn arall prysur ar ôl bod yn teithio ar ei mis mêl.

Cydymdeimlo

Hoffai’r staff estyn eu cydymdeimlad dwys tuag at deulu’r ddiweddar Rhian Mair Roberts, neu ‘Anti Rhian’ fel yr oedd yn cael ei hadnabod gan bawb ohonom yma. Bu Rhian yn gyd-weithiwr ffyddlon a ffrind arbennig i ni gyd ac mae hiraeth mawr arnom ar ei hôl. Yn ogystal, estynnwn ein cydymdeimlad dwys tuag at deulu'r ddiweddar Charlotte Speddy, merch benderfynol ac annwyl iawn a ddysgodd lawer i ni yn ystod ei chyfnod yn Ysgol Pen-y-bryn.

Mabolgampau

Cafwyd mabolgampau ysgol hynod o lwyddiannus ar Orffennaf 9fed. Diolch i Mr Jones am y trefnu ac i Ysgol Dyffryn Ogwen am gael defnyddio’u cae.

Gwobrwyo Chwaraeon



Llongyfarchiadau gwresog i Catherine Roberts o flwyddyn 6 am ei henwebiad yn y categori 'Geneth Gynradd y Flwyddyn' yng ngwobrau Chwaraeon Ysgol a drefnwyd gan 'Tirau Pobl Ifanc Egnïol Gwynedd ac Ynys Môn'. Mae llwyddiannau Catherine gyda nofio a gymnasteg yn anhygoel a braf oedd cael cydnabod ei thalentau a'i gwaith caled. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yng Nghanolfan Hamdden Biwmares, gyda'r noson yn nwylo Nia Parry, cyflwynwraig gyfarwydd iawn i ni oll. Roedd hi'n noson arbennig ac mae'r ystod o ddoniau sydd gan blant a phobl ifanc y ddwy sir yn anghredadwy. Pob dymuniad da yn y dyfodol, Catherine - rydym yn hynod falch ohonot!

Ysgol Abercaseg

Croeso



Mae disgyblion yr ysgol bellach wedi hen setlo yn eu dosbarthiadau newydd gyda phawb yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau'r ysgol. Croeso arbennig i blant y dosbarth meithrin sydd wedi ymgartrefu’n sydyn iawn yn ein plith. Dyma lun rhai ohonynt wrth eu gwaith Croeso hefyd i Ms Williams, athrawes newydd dosbarth Tryfan. Bydd llawer ohonoch yn cofio i Ms Williams weithio yn yr ysgol yn y gorffennol, ac mae pawb yn hapus o'i chroesawu'n ôl.

Diolch

Diolch i Mrs Lloyd, Pennaeth Ysgol Penybryn, am ei gwaith fel Pennaeth Strategol Ysgol Abercaseg. Gyda Ms Thomas wedi dychwelyd i'r ysgol mae Mrs Lloyd bellach yn ôl yn llawn amser yn Ysgol Penybryn. Cofiwch beidio â chadw'n ddieithr Mrs Lloyd.

'Dymuna Sioned O'Connor, Sling, ddiolch i staff, Llywodraethwyr, rhieni a phlant Ysgol Abercaseg, presennol a gorffennol, am bob arwydd o garedigrwydd a chyfeillgarwch a dderbyniodd dros y blynyddoedd o weithio yno. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.'

Ysgol Bodfeurig

Croeso ’nôl

Ar ddechrau’r flwyddyn ysgol hoffem groesawu pawb yn ôl i’r ysgol ac estyn croeso cynnes i’n disgyblion newydd yn y dosbarth Meithrin ac mewn dosbarthiadau eraill, gan obeithio y byddant yn hapus iawn yma.

Llongyfarchiadau

Dymuna pawb o blant a staff yr ysgol longyfarch Miss Lliwen Owen, Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol ar ei phriodas yn ddiweddar â Mr Glynne Jones. Llongyfarchiadau mawr i’r ddau ohonynt!

Gardd Newydd



Roedd yr ysgol yn llawn bwrlwm yn yr wythnosau olaf cyn gwyliau’r haf wrth i ni fod yn rhan o brosiect cymunedol gyda Tesco. Fel rhan o’r cynllun daeth staff o Tesco Bangor i’r ysgol i gydweithio gyda rhai o rieni gweithgar yr ysgol. Buont wrthi am dridiau yn trawsnewid lle cyn diflas i fod yn ardd hyfryd. Diolch i’r rhieni a staff Tesco am weithio mor galed er budd yr ysgol.

Gwefan Newydd

Os ydych am gael mwy o wybodaeth neu am weld lluniau o’r hyn sy’n mynd ymlaen yn yr ysgol ewch i’n gwefan newydd www.ysgolbodfeurig.org

Ysgol Rhiwlas

Wel, dyma hi yn flwyddyn addysgol newydd yn Ysgol Rhiwlas, ac rydym yn falch iawn o estyn croeso i 7 o ddisgyblion newydd yn y dosbarth meithrin a hefyd 2 ddisgybl newydd i'r dosbarth derbyn. Rydym hefyd yn dymuno yn dda i'r 8 o ddisgyblion sydd wedi ein gadael am yr ysgol fawr, 7 i Ddyffryn Ogwen ac un i Ysgol Friars.

Cydymdeimlwn yn fawr gyda Mrs Rhian Roberts Jones sydd yn athrawes yn yr ysgol ar golli ei mam dros yr Haf.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Einir Williams Cefn Coch ar ddod yn nain. Hoffem hefyd longyfarch yr holl gyn-ddisgyblion ar eu llwyddiant dros yr haf yn eu harholiadau TGAU a Lefel A, a phob dymuniad da i chi yn y dyfodol.

Ysgol Llanllechid

Croeso
Croeso'n ôl i holl ddisgyblion, staff a rhieni Ysgol Llanllechid ar ddechrau blwyddyn addysgol newydd sbon danlli arall! Rydym yn estyn croeso arbennig i blant bach newydd y Dosbarth Meithrin, - pob un wedi setlo'n ardderchog, ac yn mwynhau cwmni eu cyfeillion newydd.

Ffarwelio
Ar ddiwedd y flwyddyn addysgol cafwyd cyfarfod arbennig yn y neuadd i ddiolch i, a ffarwelio gyda Mrs Hanna Huws, ar ôl deuddeng mlynedd o wasanaeth amhrisiadwy i Ysgol Llanllechid. Cyfrannodd mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, ac i fywyd yr ysgol yn gyffredinol, a hynny bob tro gydag arddeliad ac i'r safon uchaf posib. Bu'n bleser cyd-weithio efo gwraig mor ddeallus a thalentog a dymunwn yn dda iawn iddi yn ei chylch newydd. Gan mai i'r Mudiad Heddwch y bydd Mrs Huws yn gweithio, byddwn yn parhau i fod mewn cysylltiad agos. Diolch Mrs Huws.

Dau faban newydd!
Llongyfarchiadau i Mrs Dianne Jones a'r teulu, a Ms Holly Rowe a'r teulu, - y ddwy wedi cael ychwanegiad i'w teuluoedd yn ystod gwyliau'r haf! Ganed Mila i Holly a Craig, a Becca i Dianne ac Andrew. Dymuniadau gorau oddi wrth bawb yn Ysgol Llanllechid!

Cydymdeimlo
Gyda thristwch y cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Charlotte Speddy. Cofiw'n annwyl am Charlotte fel merch ifanc arbennig oedd wedi llwyddo i oresgyn cymaint yn ei bywyd, cyn i'r diwedd ddod mor arswydus o sydyn. Cofiw'n am ei gwên fach ddireidus a'i phersonoliaeth hapus ac roedd ei ffrindiau i gyd, yn naturiol, fel ei theulu, yn meddwl y byd ohoni. Buom yn ffodus o gael ei chymorth yn Ysgol Llanllechid yn ystod tymor yr haf eleni pan ddaeth yma ar brofiad gwaith i helpu yn y dosbarth Meithrin. Roedd hi'n bleser ei chael yma yn rhan o'n tîm. Yn wir, roedd wrth ei bodd yn y dosbarth hwn, yn enwedig o ystyried fod Caitlin fach yno! Anfonwn ein cofion cynnes at y teulu oll yn eu galar o golli un a oedd mor arbennig.

Ymwelwyr o'r India



Braint oedd cael croesawu Arantika a Gita i Ysgol Llanllechid o Kullu, gogledd India, sef ardal yr Himalayas. Dwy wraig arbennig sydd wedi dysgu cymaint i ni am eu harferion a'u traddodiadau yw Avantika a Gita. Yn ystod yr wythnos gyntaf roedd pob un o'n dosbarthiadau yn ymwneud â gwahanol agwedd o'r wlad ryfeddol hon ac roedd arogleuon perlysiâu a chyri yn treiddio i bob twll a chornel! Erbyn hyn, mae pawb yn Ysgol Llanllechid yn gwybod sut i wneud rhai symudiadau yoga ac yn gwybod sut i fyfyr. Bydd yr holl luniau yn ymddangos ar ein gwefan yn fuan. Dyma beth yw addysg ar ei orau!

Gwobr Addysg Awyr Agored
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Llanllechid ar lwyddo i ennill y Wobr Arian ym maes Addysg Awyr Agored. Mae hyn yn benllanw gwaith y flwyddyn flaenorol ac yn tystio i'r holl sgiliau amrywiol y mae'r disgyblion yn eu meistroli drwy'r arlwy eang o weithgareddau a gynhelir yn flynyddol - canŵio, mynydda, dringo, cyfeiriannu, hwylio, sgiliau cadw'n heini yn y goedwig a.y.b. Derbyniwyd tarian wydr hardd fel cofnod. Diolch i Mr H.E. Jones am gyd-gordio'r gwaith.

Eisteddfod Llangollen
Fel rhan o'n rhaglen Addysg Byd, cafodd dosbarth Mrs Parry Owen (Bl 2) gyfle i graffu ar ddiwylliannau o bedwar ban byd drwy gyfrwng dawnys yn Eisteddfod Llangollen. Gwelwyd dawnsfeydd o bob lliw a llun a chafodd y disgyblion gyfle i ymuno gyda rhai o'r rhythmâu egsoftig. Diwrnod lle dysgwyd llawer a diwrnod a fydd yn aros yn y cof am amser maith.

Fferm y Foel
Bu'r Dosbarth Meithrin yn Fferm y Foel, Brynsiencyn ar ddiwedd tymor yr haf. Cafwyd tywydd bendigedig a chafwyd cyfle i fwydo'r anifeiliaid a mynd am reid ar y trelar oedd yn cael ei dynnu gan y tractor mawr coch!

Ffair Hydref
Unwaith eto eleni, cynhelir ein Ffair Hydref ar Fedi 26. Os ydych yn dymuno cyfrannu mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â'r ysgol. Byddwn wrth ein boddau yn derbyn cacennau, picls, taffi triog, bric à brac, teganau, llyfrau a.y.b. Llawer o ddiolch i'n pwyllgor gweithgar am eu gwaith caled yn trefnu. Croeso cynnes i bawb ac edrychwn ymlaen at ddiwrnod llwyddiannus arall.

Sioe Bypedau Rwdlan
Roedd hon yn sioe anhygoel gan Gwmni Cortyn ac edrychwn ymlaen at gael eich croesau yn ôl yn fuan. Roedd wynebâu'r disgyblion ieuengaf yn werth eu gweld.

Royal Oak
Llawer iawn o ddiolch i Mrs Alison Jones o'r Royal Oak, Rachub am y rhodd o £50 i'r ysgol. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr a diolchwn i gwsmeriaid y Royal Oak am eu cefnogaeth i Ysgol Llanllechid.

Disgo'r Haf
Diolch i'r Gymdeithas Rhieni/Athrawon am eu gwaith yn trefnu'r Disgo Haf yn y Clwb Criced. Roedd hi'n gyda'r nos braf a phawb yn mwynhau eistedd allan yn yr heulwen. Codwyd £400 tuag at Gronfa'r Ysgol, sy'n swm anrhydeddus iawn. Diolch i'r Pwyllgor, i chi rieni am eich presenoldeb a'ch cefnogaeth, ac i'r Clwb Criced.

Meddwl am ein Cyd-ddyn
Mae Ysgol Llanllechid yn awyddus i helpu ein cyd-ddyn drwy chwarae rhan fach yn yr ymgyrch i gynorthwyo'r ffoaduriaid sydd wedi cyrraedd cyfandir Ewrop, drwy gasglu bwydydd ynghyd. Os ydych yn awyddus i'n helpu, rydym yn gofyn yn garedig am y canlynol os gwelwch yn dda: reis, blawd (dim pasta), olew, tuniau tomatos, nionod a llefrith sydd ddim yn suro. Diolch i chi rhag blaen am eich cydweithrediad a diolchwn i Mrs Catrin Wager, mam Deio a Nedw, am gydgordio hyn.

NEUADD

OGWEN

MEDI

11	AGORIAD HELFA GELF Neuadd ac Oriel Ogwen	7.30pm	-
12	MARCHNAD OGWEN + Sesiwn Siarad i Ddysgwyr 11am	9.30am	am ddim
12	HELFA GELF - Gweithdy ac arddangosfa Gemwaith	11am	-
13	HELFA GELF - Arddangosfa + Gweithdy creadigol	11am	-
17	Theatr DRYCH	7/7.30pm	£8/6
18	Ffilm AVENGERS: AGE OF ULTRON (12A)	7/7.30pm	£5
19	Ffilm Plant SPONGEBOB: SPONGE OUT OF WATER (U)	11am	£3/5
26	Gig MEIC STEVENS, SIÔN RICHARDS	7.30pm	£10/8
28	Dechrau Cymraeg i Oedolion / Start of Welsh for Adults	7pm	-
29	Gig TOM RUSSELL	7pm	£15
30	Darlith Gyntaf CYFRES 6	7pm	am ddim
30	CYFRES 6	7pm	£5

Cysylltwch am Ragor o Wybodaeth

post@neuaddogwen.com / 01248 208 485

www.neuaddogwen.com



Ffarm Moelyci

I feithrin bwyd da, bywyd gwyllt a menter lleol

Y Siop a'r Caffi

Mae siop Ffarm Moelyci yn dal i dyfu. Rydym wedi dechrau gwerthu mwy o gynnyrch llaeth yn cynnwys llefrith, caws ac iogwrt llefrith dafad Carrie. Diolch i gynnyrch tymhorol o'r Ardd Fasnachol rydym wedi cael ciwcymbyrs, courgettes a ffa Ffrengig ffres. Mae ychwanegu ein tatws newydd, betys y môr a gorfetys, pys a mangetout ein hunain yn cynnig gwledd o lysiau lleol ffres ac organig. Mae'r bara arbenigol yn dal i werthu fel slecs, diolch i Boppy Hadau Pwmpen o Borthaethwy.

Mae'r caffi bellach yn gwerthu te a choffi, a chacennau a sleisys wedi'u gwneud yn lleol. Nid unrhyw hen de a choffi 'chwaith, ond amrywiaeth eang o de ffrwythau, te heb gaffein, a the safonol ochr yn ochr â thîm digon nerfus o staff a gwirfoddolwyr sy'n dysgu sut i greu ewyn llefrith ar gyfer y cappuccinos a'r amerikanos. Diolch yn fawr i Marc am rannu ei sgiliau! Mae mynediad wi-fi agored yn ychwanegiad newydd a chyffrous i'r siop. Beth am rannu desgiau yn Ffarm Moelyci? Cymerwch banad a gwnewch yn fawr o'r faine gliniadur, y socedi a'r wi-fi.

Rydym bellach yn edrych ymlaen at agor y siop yn fwy aml. Hoffem fedru agor ar ddydd Iau a dydd Sul yn weddol fuan. Os hoffech chi wirfoddoli i ymuno a Thîm y Siop a'r Caffi anfonwch e-bost ata' i, neu'n well fyth, galwch draw ar y dyddiau canlynol:

Dydd Gwener - 11:00 tan 6:00
Dydd Sadwrn - 9:30 tan 5.30.

Jo Gordon, Rheolwr y Siop
office@moelyci.org
Dave Ellis, Canolfan Fwyd,
davee@cwmharry.org.uk

Yr Ardd Fasnachol

Mae'r tymor yn newid yn araf yn yr ardd fasnachol eleni, ond mae'r cynhaeaf mawr ar y ffordd! Yn y poldiwneli mae'r tomatos yn aeddfedu, ac mae amrywiaeth dda o gwrddiau a pheth wmbreth o giwcymbyrs. Yn yr ardd, wrth i gnydau'r haf gael eu codi, mae planhigion newydd ar gyfer y gaeaf yn cymryd eu lle. Yn y feithrinfa mae'r planhigion parhaol a'r perlysiau'n cael eu potio yn barod i'w gwerthu, ac mae planhigion yr hydref yn cael eu plannu wrth i ni baratoi ar gyfer y tymor tyfu nesaf. Mae'r ardd flodau yn hardd, felly dewch draw i bigo tusw o'n blodau bendigedig. Sbwylwch eich hun! Pam lai?

Os hoffech chi alw draw i gael golwg, neu hyd yn oed i helpu yn yr ardd fasnachol, fe gewch groeso cynnes a chyfeillgar. Rydym bob amser yn falch o gyfarfod gwirfoddolwyr newydd hefyd, felly pam na ddewch chi draw i ymuno â'n gweithgareddau tymhorol a dysgu sgiliau garddio defnyddiol ar yr un pryd?

Diwrnod Gwirfoddoli yn yr Ardd Fasnachol bob dydd Iau 10:00 – 16:00

Coryn Bye, Rheolwr yr Ardd Fasnachol

Nodyn i'r dyddiadur

• Gwneud canhwylau â chwyr gwenyn - 17 Hydref - 14:00 - 17:00

Dewch draw i ddysgu am gwyr gwenyn. Byddwn yn egluro sut mae gwenyn yn ei gynhyrchu, a sut rydyn ni'n ei gasglu a'i lanhau cyn ei ddefnyddio. Wedyn byddwn yn gwneud ychydig o ganhwylau.

Digwyddiadau rheolaidd Ffarm Moelyci

Cwis dafarn Ffarm Moelyci ar ail nos Fawrth bob mis yn y Douglas Arms ym Methesda - 7.30pm i gychwyn am 8.00pm. Sgyrsiau Min Nos yn Ffarm Moelyci Mynediad £2 gan gynnwys panad a bisged

Hanes Naturiol Fferm Fynydd

ying Nghymru - John Harold Cymdeithas Eryri 29 Medi am 7.30pm yn 'sgubor Ffarm Moelyci

Prosiect y Wiwer Goch - Dr Craig

Shuttleworth 27 Hydref yn 'sgubor Ffarm Moelyci

Pori Cynaliadwy - Hillary Kehoe

Cydlunydd Cynllun Pori Lleol Ynys Môn 24 Tachwedd am 7.30pm yn 'sgubor Ffarm Moelyci

Panad a Sgwrs Hydref

Dechrau 3

Ydych chi'n dysgu Cymraeg? Hoffech chi gael cyfle i siarad Cymraeg yn fwy aml? Dewch draw i Gaffi Ffarm Moelyci bore Sadwrn cyntaf pob mis rhwng 10.00 ac 11.00 am banad a sgwrs.

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cysrsiau Cymunedol 6 Wythnos

Gwersi Arlunio Dechrau 15/09/2015
Gwersi Printio Dechrau 03/11/2015
Gwersi Castio a Collage Dechrau 12/01

Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru ffoniwch: 01492 536 693

Cwrs Ymwybyddiaeth Ofalgar

Cwrs yn dechrau Dydd Mercher 9 Medi tan 28 Hydref - 18:30 – 20:00 yn 'sgubor Ffarm Moelyci.

Hyfforddwr: Heli Gittins. Ffoniwch swyddfa Moelyci ar 01248 602 793 neu e-bostiwch Heli ar heli4@yahoo.com.

Cosyn Cymru

Newyddion diweddaraf Cosyn Cymru: Mae'r iogwrt yn siop Moelyci rŵan ac mae'r hufen iâ ar y gweill. Mae'r cynlluniau ar gyfer llaethdy newydd ar Ffarm Moelyci yn symud ymlaen ond yn y cyfamser mae Cosyn Cymru - lafen Carrie Rimes - yn gwneud caws, iogwrt a hufen iâ â llefrith defaid yn y Ganolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni. Bydd y caws yn barod yn fuan ond yn y cyfamser dewch i brofi'r iogwrt blasus iawn!

Rhandiroedd

Bydd Pwyllgor y Rhandiroedd yn cyfarfod yn chwarterol o hyn ymlaen a bydd raffl Clwb 100 y rhandiroedd yn cael ei dynnu yn chwarterol hefyd yn y cyfarfodydd pwyllgor. Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 4 Hydref am 11:00 a bydd raffl mis Awst, Medi a Hydref yn cael eu tynnu bryd hynny.

Pwyllgor Rhandiroedd Ffarm Moelyci moelyciallotments@gmail.com

Cegin Addysgu newydd

Mae'r cegin addysgu yn dod yn ei blaen yn dda erbyn hyn. Mae'r waliau wedi eu plastro, y gwaith o amgylch y ffenestri wedi'i gwblhau, a chyda'r pared a'r agorfa weini mae'r lle wedi'i drawsnewid. Rydym yn awyddus i sicrhau fod yr adnodd hwn yn cynnig y fantais orau bosib i'r gymuned, felly rydym yn chwilio am syniadau coginio ardderchog. Oes rhywun â diddordeb mewn ymuno â grŵp pobi, gwneud bara arbenigol neu ddysgu rhai o'n hen sgiliau gwneud jam a siytni? Beth am ddosbarthiadau meistr ar gadw bwyd a'r ffordd orau i rewi danteithion cartref ar gyfer y gaeaf? Gallem hyd yn oed gychwyn dosbarthiadau coginio rhyngwladol drwy wahodd cogyddion o dai bwyta lleol i gynnal gweithdai ar goginio bwyd o'r Eidal neu o Wlad Thai. Yn wir, mae nifer eisoes wedi datgan diddordeb mewn ymuno â ni i ddarparu danteithion sy'n tynnu dŵr o'ch dannedd! Rydym yn awyddus iawn i roi cyfle i'r gymuned gael blas ar bopeth, felly cofiwch adael inni wybod beth yr hoffech CHI ei weld yn digwydd yn y cegin addysgu newydd. Cysylltwch â'r swyddfa am ragor o wybodaeth, neu i ddweud wrthym beth yr hoffech chi ei weld yn digwydd yn Ffarm Moelyci.

Dave Ellis, Rheolwr Cabinet y Cegin davee@cwmharry.org.uk

Gardd Addysgu Gymunedol

Rydym yn falch o gyhoeddi bod Amgylchedd Cymru wedi dyfarnu grant inni ar gyfer datblygu gardd addysgu gymunedol a gwenynfa. Rydym yn bwriadu llenwi'r ardd â phlanhigion sy'n denu peillwyr, yn flodau, perlysiau, ffrwythau a llysiau, ac felly mi fydd yn fôr o arogleuon, lliw a sŵn gwenyn. Bydd yr ardd yn agored ac yn cynnig mynediad i bawb, a gwybodaeth i egluro manteision planhigion i ni, i fywyd gwyllt ac i'r byd o'n cwrdd. Mae'r ddwy haid newydd o wenydd wedi ymgartrefu'n dda ac maent i'w gweld yn ffynnu.

Cyfarfod cyntaf: 10 Medi 2015 am 14:00 yn y 'sgubor

Julie Rogers, Rheolwraig Safle'r Fferm Julie@cwmharry.org.uk

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor

☎ 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40



Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN post@llaisogwan.com

☎ 01248 600184



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS



Malinda Hayward
(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS



Paentiwr
Papurwr
Teilsiw

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu


Bethesda	01248 600045	Cludiant am ddim yn lleol	Mynytho	01758 730768
Caernarfon	01286 676070	Stoc helaeth ac amrywiol	Llanrwst	01492 640794
Llangefni	01248 751677	Croeso i gyfrifon masnachol	Siop yn	01492 640794
		Staff cyfeillgar a phroffesiynol	Llanrwst	
		Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y		

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

CHWARAEON

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd



Llongyfarchiadau i Jake Fitzpatrick o Fethesda ar gyrraedd y 4ydd gradd ‘Black Belt’ ac yntau bellach yn 60 mlwydd oed. Mae erbyn hyn yn Feistr Hyfforddwr Wu Shu Kwan, sef Bocsio Cic Tsieineaidd. Wedi iddo gyrraedd ei 3ydd gradd bu raid iddo basio 48 o arholiadau dros gyfnod o 9 mlynedd cyn bod yn barod i gael ei raddio gan y ‘Grand Master’ C. K. Chang yn Llundain.

Mae Jake wedi bod yn dysgu Wu Shu Kwan yng Ngogledd Cymru ers 30 mlynedd ac wedi cynhyrchu dros 35 o ‘Black Belts’. Os oes gennych ddiddordeb mewn cael eich hyfforddi gan Jake, neu wybod mwy am Wu Shu Kwan, mae croeso i chi alw heibio’r dosbarthiadau a gynhelir yng Nghanolfan Tregarth bob dydd Mercher neu ddydd Sul am 6.30 – 8.30y.h. Gallech hefyd gysylltu ar y ffôn 07769584646 neu ymweld â’r brif wefan: WuShuKwan.com.

Bowlio

Dyrchafiad o’r diwedd?

Wedi tair blynedd o orffen yn drydydd yn adran “C” y Gynghrair Dydd Sadwrn mae’n ymddangos bod y tîm lleol ar fin codi i adran “B”. Gyda dwy gêm ar ôl mae angen 6 phwynt ar y tîm i sicrhau dyrchafiad.

Roedd y Capten, Ioan Critchlow, yn canu a dawnsio wedi i’r tîm faeddu Bae Penrhyn o 8 i 4 a Ffynnongroyw o 9 i 3 a hynny oddi cartref. Bydd y tîm yn chwarae yn Llysfaen nesaf, gyda’r gêm olaf ym Methesda yn erbyn y Bala ar 12 Medi. Sam Whitehead yw seren y tîm, wedi ennill 14 allan o 17 gêm.

Tîm Nos Lun

Dan arweiniad Siôn Guto, mae’r tîm wedi cael tymor cymysg ac wedi gorffen yng nghanol y tabl. Cafodd sawl aelod newydd gyfle i chwarae a dangos eu doniau, gan gynnwys Heddwyn, Urtha, Louis a Maldwyn. Enillodd Carwyn Roberts 13 gêm allan o 17.

Timau Dydd Mawrth

Mae’r Tîm “A” yn bumed yn y tabl ar hyn o bryd gyda dwy gêm i’w chwarae yn erbyn Llanrwst a Benllech. Eithaf prin oedd llwyddiant y tîm “B” oherwydd salwch a gwylliau ond roedd pawb wedi cael mwynhad a phrofiad o chwarae ar wahanol lawntiau. Barn y llywydd, sy’n sylwebydd profiadol ac yn ddadansoddwr craff, yw bod rhai yn bowndian eu peli ar y lawnt yn hytrach na’u rowlio’n llyfn. “Teg edrych tuag adref” medd yr hen air.

Tîm Nis Fercher

Tymor gwael iawn yn gyffredinol. Siôn Guto wedi ennill 7 gêm allan o 10

Enillwyd cystadleuaeth agored y clwb gan Iwan Davies a Chris Jones o Ddyserth. Diolch i Alun, Fred, Alwyn, Dic a John am edrych ar ôl y lawnt ac i’r merched a fu’n gwneud te a gwerthu tocynnau raffl. Diolch hefyd i’r cefnogwyr a’r rhai sy’n barod iawn eu cyngor. Pib hwyl i Siôn a Sam sy’n chwarae i Gymru o dan 18 oed yn eu gêm yn erbyn Swydd Efrog

ym Mae Colwyn ar 13 Medi.

Ôl Nodyn: Mae’r tîm wedi sicrhau dyrchafiad ar ôl curo 8 i 4 yn Llysfaen.

Beicio

CAERNARFON / CAERDYDD AC YN ÔL



Am chwech o’r gloch fore Sadwrn yr 11eg o Orffennaf cychwynnodd Lee Evans o Rachub ar ei daith feicio i lawr am Gaerdydd, gyda cherbyd wrth gefn yn ei ddilyn. Nid oedd y tywydd yn ffafriol gyda glaw mân yn disgyn, ond fel yr aeth y siwrnai yn ei blaen daeth yr heulwen allan i godi calon pawb. Nid oedd ganddo fawr o amser i gymryd egwyl ac edmygu’r olygfa wrth seiclo filltir ar ôl filltir i gyrraedd pen ei daith o flaen Castell Caerdydd am bedwar o’r gloch y prynhawn, pryd y derbyniodd groeso gan ychydig o ffrindiau oedd wedi bod yn ei ddisgwyl. Ar ôl gorffwysio nos Sadwrn roedd wedi codi’n gynnar drannoeth er mwyn cychwyn ar ei daith yn ôl am y gogledd a chastell Caernarfon. Roedd y tywydd yn wlyb iawn wrth adael Caerdydd a chafodd gwmni Casbar am tua phymtheng milltir, sef brawd yng nghyfraith un o’r tîm oedd yn cynorthwyo Lee ar ei siwrnai. Roedd yn ei ôl wrth droed castell Caernarfon am chwech o’r gloch, wedi seiclo tua 370 o filltiroedd mewn dau ddiwrnod, ac wedi casglu swm sylweddol at elusen Strôc Cymru.



GWNA DY APWYNTIAD YN
YSBYTY GWAETHA’R BYD!



YSBYTY HOSPITAL

5.00
BOB DYDD IAU

s4c.cymru/stwnsh

Does byth eiliad dawel yn Ysbyty Hospital a bydd digon o hwyl a chwerthin yn y gyfres newydd sbon. Wyt ti’n gallu cwblhau’r chwilair cyn i’r criw ddychwelyd ar 8 Hydref?

Th	E	M	N	A	T	U	D	U	R	W	G	
O	R	O	H	L	A	T	J	O	G	W	B	
W	C	Dd	Th	U	T	A	S	E	W	O	W	
A	L	I	I	Ll	W	B	A	I	E	I	R	
I	E	O	D	P	S	L	L	U	L	D	Dd	
N	F	N	U	L	R	E	Y	G	Y	A	Y	
F	Y	S	J	O	S	D	Ch	N	Y	R	S	
A	D	O	T	I	Ch	W	Th	F	D	L	B	
T	Ch	C	N	S	L	G	I	I	P	E	Y	
S	O	E	D	A	I	L	N	Rh	O	N	T	
D	L	G	S	L	H	N	N	E	E	W	Y	
G	W	A	Ll	G	O	R	A	E	N	I	P	

—ysbyty—	Lois	Anni
Glenise	moddion	clefyd
Tudur	doctor	salwch
radio	Gwallgo	Judith
DJ Sal	Owain	Poen
gwely	nyrs	Tabled